# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>24 IONAWR 2022<br>2.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>24 JANUARY 2022<br>2.00 pm** |
| **CYFARFOD RHITHWIR WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYD O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 29 Tachwedd 2021
- 13 Rhagfyr 2021

**4 PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 19 - 24)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, cofnodion drafft y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021.

**5 BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 25 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro).

**6 CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2021/22** (Tudalennau 41 - 56)

Cyfwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 CYLLIDEB GYFALAF 2022/23 – CYNNIG CYCHWYNNOL** (Tudalennau 57 - 68)

Cyfwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 POLISI RHANNU ECWITI** (Tudalennau 69 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**9 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 107 - 110)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r

cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

10 **YMATEB I'R HER DAI LLEOL - DATBLYGIAD GER YSBYSTY PENRHOS STANLEY, CAERGYBI** (Tudalennau 111 - 116)

Cyflwyno adroddoiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Cyfarwyddwr Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM),<br>Rheolwr Polisi a'r Iaith Gymraeg (FO),<br>Uwch Reolwr – Cynradd (OD),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Polisi (RWJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Dylan Rees, Dafydd Roberts. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

Croesawodd y Cadeirydd Mr Rhys Hughes i'r cyfarfod, sydd wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb yn ystod y cyfarfod.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG DYNODEDIG**

Dim i'w adrodd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2021 i'w cymeradwyo.

**Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2021 yn gywir.**

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod o fis Rhagfyr 2021 i fis Gorffennaf 2022. Amlygodd y Rheolwr Polisi'r newidiadau a ganlyn :-

- **Eitemau newydd ar y Flaen Raglen Waith**

  - Eitem 4 – Strategaeth Ddigidol Ysgolion ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr 2021.
  - Eitem 9 – Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2022/23 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022.

  Eitemau Cyllideb 2022/23 (dyddiadau i'w cadarnhau, yn ddibynnol ar amserlen Llywodraeth Cymru):-

  - Eitem 17 – Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23
  - Eitemau 18 i 21 – Eitemau'n ymwneud â Ffioedd a Thaliadau
  - Eitem 23 – Strategaeth Cyfalaf a Rhaglen Gyfalaf
  - Eitem 24 – Cyllideb Gyfalaf 2022/2023
  - Eitem 4 - Strategaeth Ddigidol Ysgolion ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr 2021.

**Eitemau sydd wedi cael eu haildrefnu**

- Eitem 12 – Polisi Cynnal Ffyrdd a Rheoli Asedau – wedi ei symud o fis Rhagfyr 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022.

**Eitem newydd i'w gynnwys ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**

- Sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarth Gogledd Cymru ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr 2021.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r flaen raglen waith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod o fis Rhagfyr 2021 i fis Gorffennaf 2022, fel y'i cyflwynwyd, gan nodi bod y Flaen Raglen Waith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem sefydlog yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.**

**5 ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2, 2021/22**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Monitro Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2021/22.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol, bod y mwyafrif (70%) o'r dangosyddion perfformiad Iechyd Corfforaethol sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (statws RAG Gwyrdd neu Felyn). Er bod y perfformiad mewn perthynas â phresenoldeb yn y gwaith yn dangos bod 4.09 diwrnod wedi eu colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl), a'i fod yn Ambr ar ddiwedd Chwarter 2, mae'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn yn fwy heriol a byddai'r perfformiad wedi cael statws gwyrdd oni bai bod y targed wedi cael ei newid. Dywedodd ei fod yn falch o'r perfformiad gan i'r cyfnod fod yn un heriol oherwydd y pandemig. Cyfeiriodd hefyd at y ffigyrau ar gyfer salwch tymor hir sydd wedi gostwng yn

ystod y tair blynedd diwethaf. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at Ddangosydd 32 hefyd – Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio - sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 60.88% yn erbyn targed o 70% ar gyfer y chwarter. Mae'r pandemig yn parhau i gael effaith ar ddeunyddiau sy'n cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu compostio ar draws Cymru ac yn ystod Chwarter 1 sefydlwyd Grŵp Llywio i oruchwylio'r materion hyn. Mae'r Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o WRAP Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelod etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp yn dadansoddi'r data sydd ar gael ac yn datblygu opsiynau ar y ffordd orau i gyrraedd y targed o 70% erbyn 2025. Blaenoriaeth gyntaf y Cyngor yw cyrraedd y targed ailgylchu presennol o 64% yn 2021/22.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod yr adroddiad Chwarter 2 yn dangos fod dau o dri dangosydd perfformiad llesiant yr Awdurdod wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, bydd mesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, dywedodd yr Is-gadeirydd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi trafod Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 2 ac y mynegwyd pryderon ynghylch y dirywiad ym mherfformiad y ganran o wastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio – yn benodol y gostyngiad yn y tunelli o wastraff gwyrdd a gasglwyd o gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21. Mynegodd y Pwyllgor bryder hefyd ynghylch ymatebolrwydd system ffôn y Cyngor a'r oblygiadau i foddhad y cwsmer wrth iddynt gysylltu â'r Cyngor. Cyfeiriodd y Pwyllgor hefyd at alw cynyddol a phwysau yn y Gwasanaethau Plant ar drothwy cyfnod y Gaeaf, ynghyd â risg parhaus y pandemig. Serch hynny, ar ôl ystyried adroddiad y cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 2 2021/22 a'r diweddariadau a roddwyd gan Swyddogion, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru fel y'u hamlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd yr Arweinydd yn dymuno diolch i staff y Cyngor am eu gwaith parhaus yn ystod cyfnod heriol y pandemig gan fod y dangosyddion perfformiad yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau yng ngwasanaethau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch2 2021/22, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a nodir yn yr adroddiad.**

## 6 STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2021-2026

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer yr Iaith Gymraeg ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi strategaeth hybu'r Gymraeg. Pwrpas strategaeth o'r fath yw amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r iaith a hwyluso ei defnydd ehangach ar Ynys Môn. Ychwanegodd ei bod yn bwysig nodi mai strategaeth dros dro yw Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 a bod paratoi dogfen o'r fath yn her oherwydd diffyg data cyfredol ynghylch sefyllfa'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Dywedodd hefyd fod y Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) yn adeiladu ar sylfeini'r strategaeth gyntaf a'i bod yn mabwysiadu meysydd targed a blaenoriaethau cyson h.y. plant, pobl ifanc a'r teulu; y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith; a'r gymuned. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer yr Iaith Gymraeg bod cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyntaf wedi'i ymgorffori yn y Strategaeth a bydd Fforwm Iaith Ynys Môn yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynllun gweithredu. Bydd crynodeb o weithrediad y strategaeth yn cael ei gynnwys hefyd

yn yr adroddiad blynyddol ar y Safonau Iaith Gymraeg. Nododd bod y Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ddiweddar ac ymgynghorwyd ar y Strategaeth gan dderbyn 30 o ymatebion.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, dywedodd y Rheolwr Sgriwtini fod y Pwyllgor, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021, wedi gofyn a oedd unrhyw risgiau neu bryderon penodol ynghylch sefyllfa'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Cafwyd rhai sylwadau yn nodi bod craffu ar y Strategaeth yn her a gofynnwyd a fyddai'r strategaeth yn llwyddiannus ai peidio oherwydd diffyg data cyfredol. Gofynnwyd a fyddai modd i'r Strategaeth annog ac ymgorffori defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sector preifat. Mynegwyd pryderon bod canran y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys wedi gostwng a bod y niferoedd yn parhau i fod ar yr un lefel ag yr oeddent yn y 1950au, ynghyd â'r effaith y gallai hynny ei gael ar y gymuned ac ar ddyfodol yr iaith Gymraeg. Nododd fod y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio'n cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo cyhoeddi'r ddogfen Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-21: Adroddiad Asesu (drafft) ar y wefan gorfforaethol.**
- **Argymell i'r Cyngor Llawn y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol i wneud unrhyw adolygiadau pellach o'r strategaeth ddrafft cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn dim hwyrach na 31 Rhagfyr 2021.**

## 7 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2, 2021/22

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2021/22.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid y dylid nodi bod darogan y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd Chwarter 2 yn anodd a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn fynd rhagddi. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2021/22, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.529m, sydd yn cyfateb i 1.04% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, gallai cynnydd mewn costau, gan gynnwys dyfarniad cyflog posib o fwy na'r 1.75% a gynhwyswyd yn y rhagolwg, a chynnydd posib yn y galw am wasanaethau yn ystod ail hanner y flwyddyn, ostwng y sefyllfa refeniw derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei fod yn dymuno rhoi sicrwydd na fydd yr Awdurdod yn gorfodi ysgolion i gyllido cynnydd yng nghyflogau athrawon o'u cyllidebau fel y gwelwyd mewn awdurdodau lleol eraill. Esboniodd i'r Pwyllgor Gwaith beth yw'r risgiau ariannol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol fel y nodwyd ym mharagraff 10 yr atodiad i'r adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol yn ystod yr ail chwarter eleni oherwydd y pandemig, chwyddiant a chodiadau cyflog, ynghyd â'r gwasanaethau plant a digartrefedd. Cyfeiriodd at Dabl 9 yn yr adroddiad – Cyllid Grant Covid-19 Llywodraeth Cymru – hawliwyd £2.7m hyd at fis Hydref 2021 ac mae LlC wedi talu dros £2m. Hawliwyd swm ychwanegol o £700m hefyd a disgwylir penderfyniad gan LlC ynghylch y swm hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, bod y Panel, wrth ystyried yr adroddiad, yn teimlo ei fod yn ddatganiad clir a hunanesboniadol o'r sefyllfa yn Chwarter 2 ac roedd y Panel yn nodi ac yn croesawu'r perfformiad cadarnhaol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2021/22. Mae'r sefyllfa'n ddibynnol ar gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r golled ariannol a'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r Coronafeirws.**
- **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD.**

**8 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2, 2021/22**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar Fonitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2021/22 y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod cyllideb gyfalaf o £56.947m wedi'i gosod ar gyfer 2021/22, fel y gwelir yn Nhabl 2.1 yr adroddiad. Gwariwyd 95% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol hyd at ddiwedd yr ail chwarter. Serch hynny, 25% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma, sef cyfanswm o £12.7m. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol, fel y nodir yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei bod yn anodd rhagweld y gyllideb gyfalaf wrth fonitro Chwarter 2 gan fod cynlluniau yn ddibynnol ar gyllid grant ar gyfer gwahanol brosiectau. Cyfeiriodd at gyllideb y Gronfa Refeniw Tai (CRT) a nododd y gallai cynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu a phrinder contractwyr arwain at oedi mewn rhai prosiectau. Ychwanegodd mai'r gobaith yw y bydd y Gyllideb Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo'n gynharach yn y flwyddyn yn y dyfodol er mwyn caniatáu i staff ymgymryd â phrosesau tendro ar gyfer prosiectau.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y Panel, wrth ystyried yr adroddiad, wedi mynegi pryderon am brinder a chostau deunyddiau a chontractwyr i wneud gwaith adeiladu.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2021/22 yn Chwarter 2.**

**9 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 2, 2021/22**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2021/22.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei bod yn bwysig nodi bod y CRT wedi'i glustnodi ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y pandemig wedi effeithio ar allu'r Cyngor i brynu hen dai cyngor ac wedi arwain at oedi yn y rhaglen adeiladu tai newydd oherwydd oedi a phrinder deunyddiau. Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd gorwariant o £363k yn y CRT o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Mae gwariant cyfalaf £1,518k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2021/22.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2021/22.**

**10 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2022/23**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mewn perthynas â chyfrifo sylfaen y dreth ar gyfer 2021/22.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y cyfrifiadau wedi'u gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1v.1.0) 2022/23 yn seiliedig ar nifer yr eiddo yn y gwahanol fandiau ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2021 ac a grynhoir gan yr Awdurdod o dan Adran 22b (7) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth gostyngiadau, eithriadau a phremiymau, yn ogystal â newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn 2022/23. Cyfanswm y sylfaen arfaethedig ar gyfer 2022/23 at ddiben pennu'r dreth yw 31,079.93. Mae hyn yn cymharu â 30,880.22 ar gyfer 2021/22 ac mae'n gynnydd o 0.65%.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y cyfrifiadau yn Atodiad A yr adroddiad yn seiliedig ar gadarnhau gostyngiad o ddim ar gyfer Dosbarthiadau A, B ac C; premiwm o 100% ar dai gwag tymor hir a phremiwm o 50% ar ail gartrefi ar gyfer 2022/23, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref 2021 i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2022/23, sef 31,079.93 (Rhan E6 yn Atodiad A yr adroddiad).**
- **Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2022/23 (Rhan E5 yn Atodiad A yr adroddiad).**
- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'u diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2022/23 yw 32,042.00 ac fel y nodir yn nhabl 3 yr adroddiad am y rhannau hynny o'r ardal a restrir ynddo.**

**11 CYNLLUN TROSIANNOL**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â'r Cynllun Trosiannol ar gyfer y Cyngor Sir.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor fod y Cynllun Trosiannol yn darparu fframwaith gweithredol i Swyddogion gyflawni amcanion strategol allweddol trwy gamau gweithredu diffiniedig yn ystod cyfnod adfer yr Ynys yn union ar ôl y pandemig. Mae'r Cynllun yn esblygu o Gynllun Cyflawni Blynyddol 2020-22.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Cynllun Trosiannol yn darparu sicrwydd a chyfeiriad yn ystod y cyfnod adfer yn union ar ôl y pandemig trwy adolygu a mireinio amcanion i'w cyflawni yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd o dan y weinyddiaeth newydd ar ôl mis Mai 2022. Amcanion strategol y cynllun yw:-

- Adfywio'r economi leol a gwreiddio newidiadau economaidd cadarnhaol;
- Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd;
- Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol bwysig megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys.

Bydd yr amcanion uchod yn cael eu llywio gan yr angen i drawsnewid i fod yn Awdurdod Lleol carbon niwtral erbyn 2030 ac ymateb yn effeithiol i'r argyfwng newid hinsawdd, deddfwriaeth llywodraeth leol newydd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, dywedodd Is-gadeirydd y Pwyllgor hwnnw bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi trafod y Cynllun Trosiannol a'i fod wedi nodi pryderon ynglŷn â'r angen i ganiatáu i'r sector ymwelwyr a lletygarwch fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys wrth warchod ei hasedau mewn cymunedau, yr angen i reoli twristiaeth er budd yr ynys a'i heconomi a chryfhau adran dwristiaeth y Cyngor. Nododd y Pwyllgor yr angen i foderneiddio gwasanaethau cymunedol holl bwysig megis gofal ac addysg ledled yr Ynys a chyfeiriodd hefyd y risg mewn perthynas â darparu gofal mewn cartrefi gofal pe byddai Llywodraeth Cymru'n penderfynu dilyn yr un trywydd â Lloegr a'i gwneud yn ofyn cyfreithiol i weithwyr cartrefi gofal gael eu brechu'n llawn. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a oedd y Cynllun Trosiannol yn cymryd lle'r Cynllun Corfforaethol ac a yw'r cyfnod o 12 mis yn ymrwymo neu'n clymu'r Cyngor newydd i'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun. Argymhellodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Cynllun Trosiannol.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones fod gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth ar bob lefel yn bwysig er mwyn gwneud y mwyaf o ganlyniadau ac ymateb i anghenion, gofynion a chyfleoedd sy'n newid. Wrth gyflawni amcanion y Cynllun, mae angen i'r Ynys adfywio'r economi leol a gwreiddio newidiadau economaidd cadarnhaol. Tynnodd sylw'r Pwyllgor Gwaith at y prosiectau a nodir ym mharagraff 6 yr adroddiad. Ychwanegodd fod adfywio'r economi leol i sicrhau mwy o wydnwch a thwf posib yn y dyfodol yn holl bwysig a bydd angen gwireddu adferiad gwyrdd sydd yn rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd, yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn parchu'r amgylchedd naturiol.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Trosiannol a fydd yn darparu'r fframwaith gweithredol i Swyddogion gyflawni amcanion strategol allweddol trwy gamau gweithredu diffiniedig yn ystod cyfnod adfer yr Ynys yn union ar ôl y panedmig.**

## 12 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn ymgorffori Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant bod Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Pwrpas y rheoliadau hyn yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi disgwyliadau o ran twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn awr ac yn y dyfodol. Bydd gwella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r uchelgais genedlaethol hirdymor i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai'r cynllun yw'r weledigaeth ar gyfer addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog dros y deg mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn rhoi lle canolog i'r dysgwr ac yn ystyried taith a phrofiad yr holl ddysgwyr yn ystod eu taith addysgol. Mae Cynllun y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn yn ategu ac yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 trwy weithio'n strategol ag ysgolion, partneriaid a strwythurau CSGA i sicrhau bob pob unigolyn yn derbyn cyfleoedd yn ystod eu haddysg i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, dywedodd y Rheolwr Sgriwtini bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi gofyn, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021, a fyddai modd addasu'r CSGA gan ei fod yn gynllun 10 mlynedd. Cyfeiriwyd at yr her yn y sector uwchradd i ddenu athrawon sy'n gallu addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a mynegwyd pryderon bod canran y pynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn 34.8%. Gofynnwyd hefyd beth oedd y prif heriau yn y dyfodol o ran sefyllfa'r iaith Gymraeg mewn addysg ar lefel leol. Nododd bod y Pwyllgor Sgriwtini a Phartneriaeth yn argymell cymeradwyo Cynllun y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.**
- **Diffiniad o rôl y Cydlynwyr Iaith Dalgylchol.**
- **Awdurdodi Swyddogion Perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio, i gwblhau unrhyw adolygiadau pellach o'r strategaeth ddrafft.**

## 13 DATGANIAD O BOLISI GAMBLO 2022-2025

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei fabwysiadu, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, yn ymgorffori'r Datganiad o Bolisi Gamblo 2022-2025.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod rhaid i'r Cyngor, o dan Ddeddf Gamblo 2005, fabwysiadu Datganiad o Bolisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'r Polisi hwn yn nodi sut fydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio sefydliadau gamblo.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo.**

## 14 STRATEGAETH CYFRANIADAU BUDDION CYMUNEDOL

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar y Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd y bu rhai newidiadau arwyddocaol mewn prosiectau, polisïau a deddfwriaeth mewn perthynas â

phrosiectau mawr ers mabwysiadu Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol (CBC) gwreiddiol y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2014, ac yn arbennig o safbwynt prosiectau ynni a'r ymgyrch i gyflawni sero-net. O'r herwydd, roedd y Cyngor yn teimlo ei bod yn amserol i ddiweddaru'r Strategaeth CBC i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i bwrpas a'i fod yn adlewyrchu sefyllfa ddiweddaraf polisi a deddfwriaeth ynghylch yr angen i ddatblygiadau mawr ddarparu buddion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd i gymunedau lleol. Gyda chynlluniau ar gyfer sawl datblygiad mawr ar yr Ynys yn ystod y ddegawd nesaf mae cyfle i'r Ynys barhau i dyfu a ffynnu wrth gyfrannu at amcanion cenedlaethol, gan gynnwys symud tuag at economi carbon isel a chyflawni sero-net erbyn 2050. Mae nifer o ddatblygiadau ffermydd solar, cynigion ynni llanw, cynlluniau gwynt ar y môr ac ar y tir a datblygiadau hydrogen ar y gweill.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei bod yn bwysig bod y Cyngor Sir yn parhau i negodi a sicrhau buddion cymunedol gwirfoddol ar gyfer Ynys Môn ac i gyfathrebu i ddatblygwyr bod disgwyl iddynt gyfrannu buddion cymunedol gwirfoddol am letya datblygiadau mawr. Ychwanegodd bod alinio'r Strategaeth CBC gyda pholisi, deddfwriaeth a chanllawiau diweddaraf (gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru'r Dyfodol a'r ymgyrch tuag at sero-net 2050) yn bwysig i'r Ynys yn y dyfodol.

**Penderfynwyd cefnogi a mabwysiadu'r Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol diwygiedig.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Tîm TG (MGH)<br>Swyddog Polisi (RWJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, Dafydd Roberts, Mr Arwel Wyn Owen (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion) |

DRAFT

Wrth groesawu pawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i bawb a oedd wedi mynd yr ail filltir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau parhad busnes y Cyngor a diogelwch a llesiant yr Ynys a'i thrigolion; ar ran y Pwyllgor Gwaith dymunodd yn dda iddyn nhw, aelodau etholedig a staff y Cyngor a'u teuluoedd yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Wrth gyfeirio at sefyllfa bresennol Covid-19 ar Ynys Môn a thu hwnt a'r ansicrwydd y mae'n ei greu, anogodd pawb sy'n cael eu gwahodd am frechiad atgyfnerthu i dderbyn y cynnig, ac hefyd i barhau i gadw at y mesurau sydd ar waith i reoli lledaeniad y firws, sef gwisgo mwgwd, sicrhau bod mannau dan do yn cael eu hawyru a golchi dwylo yn rheolaidd.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorwyr R. Meirion Jones ac Ieuan Williams ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitemau 6, 7 ac 8 ar y rhaglen ac nid oeddent yn bresennol pan ystyriwyd y materion hynny.

Datganodd Mr Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitemau 7 ac 8 ar y rhaglen ac nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y materion hynny.

Wrth ddatgan diddordeb yn eitemau 6 ac 8 ar ran yr aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a nodir isod, cadarnhaodd y Cadeirydd bod yr aelodau hynny wedi derbyn caniatâd arbennig i gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio ar eitemau 6 ac 8 gan banel o'r Pwyllgor

Safonau a gyfarfu ar 12 Tachwedd 2021 - Y Cynghorwyr Richard Dew, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams.

## 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Nid oedd dim i'w adrodd.

## 3. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i fis Awst 2022, a thynnwyd sylw at y newidiadau a ganlyn -

- Eitem 4 – Gostwng Oed Mynediad i Ysgol Llandegfan – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr 2022.
- Eitem 7 – Strategaeth Tai Lleol – wedi'i symud o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr i'r cyfarfod ar 14 Chwefror 2022.
- Eitem 11 – Cludiant Ysgol: Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022.
- Datblygiadau Tai o fwy na 10 uned: Tir ger Ysbyty Penrhos Stanley – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr 2022 nad oedd wedi'i chynnwys yn y Flaen Raglen Waith a gyhoeddwyd.

**Penderfynwyd cadarnhau'r blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Ionawr i Awst 2022 gyda'r newid ychwanegol a nodwyd yn y cyfarfod.**

## 4. SEFYDLU AWDURDOD IECHYD PORTHLADD NEWYDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Dew, Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn nodi'r gofynion ar y Cyngor i ddatblygu a sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd (AIP) penodedig newydd yn sgil sefydlu Safle Rheoli Ffiniau.

Mae ymadawiad y Deyrnas Unediad o'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi creu'r angen i sefydlu trefniadau rheoli ffiniau newydd a gwiriadau ar fewnforion. Gosodwyd y gofynion newydd hyn ar Lywodraeth Cymru yn sgil Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Ar hyn o bryd mae dau gyfleuster newydd wrthi'n cael eu datblygu ym Mharc Cybi, Caergybi i gynnal gwiriadau tollau a rheoli ffiniau ar gyfer nwyddau sydd yn dod i mewn neu'n gadael y Deyrnas Unedig drwy borthladd rhyngwladol Caergybi. Mae Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn datblygu Cyfleuster Rheoli Ffiniau Mewndirol ac mae Llywodraeth Cymru'n sefydlu Safle Rheoli Ffiniau.

Er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y Safle Rheoli Ffiniau o dan bwerau a gafodd eu datganoli gan Lywodraeth y DU, bydd sefydlu'r cyfleuster hwn yn rhoi dyletswyddau ychwanegol ar y Cyngor Sir, fel yr awdurdod lletyol, o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 a deddfwriaeth yr UE a gadwyd yn ymwneud ag archwilio mewnforion. Mae'n rhaid sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd (AIP) penodedig newydd gyda chyfrifoldeb am orfodi mesurau rheoli iechyd ar ffiniau'r DU erbyn mis Gorffennaf 2022 pan fydd archwiliadau ar gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid yn cael eu cyflwyno, er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor sy'n cynnwys amrywiaeth o wiriadau dogfennol, hunaniaeth a ffisegol.



DRAFT

Mae Swyddogion Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru ers mis Awst 2020 er mwyn deall y newidiadau disgwyliedig i wiriadau rheoli ffiniau yn well. Er gwaethaf ymdrechion y swyddogion, mae diffyg gwybodaeth ac eglurder wedi effeithio ar allu'r Cyngor i gynllunio a pharatoi'n ystyrlon ar gyfer y newidiadau i drefniadau rheoli ffiniau. Dylid nodi hefyd nad oes gan y Cyngor unrhyw arbenigedd, capasiti na gallu ym maes iechyd porthladd ar hyn o bryd. Er bod gwaith datblygu'r AIP wrthi'n cael ei wneud gyda grant untro gan Lywodraeth Cymru, nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch cyllido'r gwaith yn y dyfodol ar wahân i'r posibilrwydd o gynyrchu incwm drwy gynnal gwiriadau dogfennol. Ni fydd unrhyw gymorth ariannol ar gael ar ôl mis Mawrth 2022.

Manylodd y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar y ddau opsiwn sydd ar gael i'r Cyngor, ym marn y Gwasanaeth, er mwyn cyflawni'r dyletswyddau iechyd porthladd newydd, sef – sefydlu AIP hyd braich newydd ar gyfer Caergybi neu gyflawni'r dyletswyddau'n fewnol yn y Cyngor heb sefydlu AIP newydd – a chyfeiriodd at fanteision ac anfanteision y ddau opsiwn. Cadarnhaodd bod angen gwneud rhagor o waith manwl i adolygu ac asesu addasrwydd, cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd yr opsiwn a ffafrir er mwyn sicrhau mai dyma'r ffordd orau ymlaen i'r Cyngor, a bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu materion megis llywodraethiant corfforaethol, risgiau, rhwymedigaethau, costau a'r angen am gymorth gan wasanaethau eraill y Cyngor. Bydd rhaid paratoi Cynllun Gweithredol ar gyfer yr AIP i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol mewn da bryd ac mewn modd sy'n cydymffurfio a bydd angen gwneud trefniadau recriwtio i sicrhau bod swyddogion profiadol a chymwys ar gael i gyflawni'r dyletswyddau newydd.

Wrth ystyried yr adroddiad, mynegodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith bryder ynglŷn â goblygiadau dyletswyddau iechyd porthladd newydd y Cyngor o safbwynt costau ychwanegol a'r angen am adnoddau ychwanegol. Tynnodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, sylw at ddiffyg unrhyw fath o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer datblygu, sefydlu a gweithredu'r AIP newydd yn y lle cyntaf, a chan mai'r unig ffynhonnell o gyllid parhaus yw'r posibilrwydd o greu incwm am gynnal gwiriadau dogfennol, gallai cyflawni cyfrifoldebau'r swyddogaeth iechyd porthladd (nad yw'n gyfrifoldeb y mae'n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru ei ysgwyddo), arwain at faich ariannol sylweddol ac anheg ar drethdalwyr yr Ynys. Gan gydnabod cydnabyddiaeth y Swyddog o'r angen i ddal i bwyso ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mater hwn, roedd yr Aelod Portffolio o'r farn y dylid atgyfnerthu'r neges mewn llythyr uniongyrchol at Lywodraeth Cymru i bwysleisio eto yr angen am ymrwyniad i ddarparu cymorth ariannol yn y cyswllt hwn.

Tynnwyd sylw hefyd at ddiffyg eglurder a chynnydd mewn perthynas â datblygu Safle Rheoli Ffiniau, er gwaethaf cysylltiadau niferus rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru dros gyfnod o amser i geisio deall y newidiadau i archwiliadau ar y ffin. Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn teimlo bod diffyg gwybodaeth a chyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn, er gwaethaf ymdrechion swyddogion y Cyngor i gael sicrwydd yn y cyswllt hwn, wedi cael effaith sylweddol ar baratoadau'r Cyngor a'i allu i gynllunio'n effeithiol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau iechyd porthladd o fewn yr amserlen a nodwyd. Pwysleisiwyd yr angen brys i atgyfnerthu cyfathrebiadau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn sicrwydd ac eglurder ynghylch y trefniadau ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau.

**Penderfynwyd –**

- **Cydnabod y gofyniad statudol i sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd newydd.**
- **Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu, mewn ymgynghoriad â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Deilydd Portffolio, i bennu a datblygu opsiwn dewisol ar gyfer sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd newydd.**

- **Cydnabod y bydd gwaith datblygu pellach yn cael ei gyflawni ar fenter y Cyngor Sir, ac y bydd adnoddau ar gael i'r Pennaeth Gwasanaeth, Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (gwerth a chwmpas i'w gytuno â Swyddog 151 y Cyngor).**
- **Parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ariannu cyfrifoldebau newydd ac ychwanegol y Cyngor yn ddigonol a theg, er mwyn datblygu, sefydlu a rhoi Awdurdod Iechyd Porthladd newydd ar waith a gwarantu'r holl gostau ychwanegol i'r Cyngor nad oes modd eu hadennill drwy'r incwm a gynhyrchir gan yr Awdurdod Iechyd Porthladd. Llythyr i'r perwyl hwn i'w anfon at Lywodraeth Cymru fel mater o frys.**
- **Awdurdodi rhyddhau £100,000 o falansau cyffredinol y Cyngor i gwblhau'r uchod (bydd y Cyngor yn ceisio'i adennill oddi wrth Lywodraeth Cymru). Bydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor llawn ar gyfer unrhyw gyllid ychwanegol sy'n uwch na'r swm yma yn unol â'r terfynau sydd wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**

## 5. SEFYDLU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn ceisio cytundeb y Pwyllgor Gwaith, mewn egwyddor, i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) newydd Gogledd Cymru gyda'r nod o gyflawni model llywodraethiant symlach ac osgoi dyblygu.

Gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru ar 17 Mawrth 2021 yn creu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru a sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 2021. Bydd y pedwar CBC yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â datblygu strategol, cynllunio a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Byddant hefyd yn gallu gwneud pethau i hyrwyddo llesiant economaidd. Yn wahanol i drefniadau cyd-bwyllgor eraill, mae'r CBC yn gorff corfforaethol ar wahân sy'n gallu cyflogi staff a dal asedau. Mae consensws ymysg awdurdodau lleol Gogledd Cymru y dylai'r CBC barhau i'r cyfeiriad a sefydlwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Ymhellach, mae Arweinyddion a Phrif Weithredwyr y chwe Chyngor yn cytuno y dylai CBC Gogledd Cymru gael ei adeiladu ar y nodau a'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 8 yr adroddiad. Mae cytundeb traws-ffiniol hefyd y dylid anelu i ddechrau at sefydlu model llywodraethu symlach, gan osgoi dyblygu tra'n rhoi sylw dyledus i sybsidiaredd. Felly, y flaenoriaeth gyntaf yw symud y Bwrdd Uchelgais Economaidd i is-bwyllgor sydd wedi'i rymuso o'r CBC, gan nodi mai Arweinyddion awdurdodau lleol y rhanbarth fydd yn rheoli'r corff corfforedig hwn.

Mae Pinsent Masons, sydd yn cynghori nifer o ranbarthau Cymru, wedi ystyried y strwythurau gweithredol sydd ar gael i'r Bwrdd Uchelgais wrth symud ymlaen, yng ngoleuni sefydlu'r CBC, cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru a'r egwyddorion rhanbarthol cytunedig a nodwyd o dan baragraff 8 yr adroddiad. Byddai gwneud dim neu 'cyd-fodoli' yn annigonol, yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n mynd i'r afael â sut y bydd swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu cyflawni gan y CBC. Y strwythur gweithredol mwyaf effeithlon a hyfyw, sy'n bodloni'r gofyn i drosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforedig, yw trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i is-bwyllgor sydd wedi'i rymuso o'r CBC. O ganlyniad, bydd trosglwyddo'r swyddogaethau i is-bwyllgor yn cadw elfennau craidd y Bwrdd Uchelgais, ond bydd yn darparu model cyflenwi mwy cadarn ac effeithlon yn uniongyrchol drwy gerbyd corfforedig y CBC. Mae Pinsent Masons wedi cynghori swyddogion yn fanwl ar y manteision a rhai materion allweddol, cyn dod i'r casgliad mai trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i is-bwyllgor fyddai'n darparu'r strwythur gorau ar gyfer y CBC. Mae'r adroddiad yn nodi manteision y trosglwyddiad arfaethedig ac mae'n rhoi sylw i ystyriaethau o ran gwneud penderfyniadau, gwerth a ychwanegir o fabwysiadu'r dull hwn,

trosglwyddo trefniadau'r Fargen Dwf a llywodraethiant a chyllid. Ni fyddai cymeradwyo'r penderfyniad a geisir gan yr adroddiad ynghylch y model llywodraethiant yn creu unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor. Fodd bynnag, bydd costau anorfod parhaus nad ydynt wedi'u hadnabod yn llawn eto i'r awdurdodau lleol er mwyn gweinyddu a chyflawni swyddogaethau'r CBC. Y cyfeiriad a osodir gan yr adroddiad hwn yw gwneud i'r CBC weithio'n effeithiol tra'n lleihau'r baich ariannol yr y Cyngor.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith sylw at y ffaith mai ychydig iawn o gyhoeddusrwydd a roddwyd i ffurfio'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'i bod felly'n bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol mai creadigaeth Llywodraeth Cymru yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u bod wedi cael eu gorfodi gan Lywodraeth Cymru yn unol â model ragnodedig a'u bod trwy hynny, ym marn y Pwyllgor Gwaith, yn creu haen ddiangen a nas dymunir o fiwrocratiaeth. Gan eu bod yn gyrff anetholedig maent yn mynd yn groes i'r graen o safbwynt democratiaeth leol a dewis lleol. Er i'r Pwyllgor Gwaith bwysleisio bod y Cyngor yn ymrwymedig i weithio ar lefel ranbarthol lle mae manteision gwneud hynny'n glir, a'i fod eisoes yn gweithredu yn y modd hwnnw trwy GwE er enghraifft, roeddent o'r farn nad yw'r angen am y Cyd-Bwyllgorau Corfforedig wedi'i brofi ac y bydd y gost o weinyddu a gwasanaethu'r cyrff ar wahân hyn yn creu baich ychwanegol ar gynghorau yn nhermau arian, adnoddau ac amser ac nad oes ganddynt ddewis yn y mater. Oherwydd hynny, a chan bod y Cyd-Bwyllgorau Corfforedig wedi cael eu sefydlu trwy fandad gan Lywodraeth Cymru, roedd y Pwyllgor Gwaith o'r farn ei bod yn rhesymol gofyn i Lywodraeth Cymru eu hariannu'n llawn.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno mewn egwyddor i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru trwy gytundeb dirprwyo i Gyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn amodol ar –**
  - **bod y fframwaith statudol mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu yn caniatáu dirprwyo'r swyddogaethau gweithredol perthnasol i Gyd-Bwyllgor Corfforaethol,**
  - **bod Cyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn cytuno i sefydlu Is-Bwyllgor, ag aelodaeth i'w gytuno gyda'r Cynghorau, i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.**
- **Gofyn mewn llythyr i Lywodraeth Cymru fel yr un sydd wedi creu a sefydlu'r Cyd-Bwyllgorau Corfforedig, iddo dalu am yr endidau hynny yn llawn.**

## 6. STRATEGAETH DDIGIDOL AR GYFER YSGOLION YNYS MÔN

Cyflwynodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymgorffori'r Strategaeth Ddigidol gyntaf ar gyfer Ysgolion Ynys Môn sy'n nodi gweledigaeth yr Awdurdod yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh i ysgolion.

*Gan eu bod wedi datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y mater hwn ac yn eitemau 7 ac 8 isod, nid oedd y Cynghorwyr R. Meirion Jones ac Ieuan Williams yn bresennol ar gyfer yr eitem nac am weddill y cyfarfod.*

Gyda chyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru, bydd cymhwysedd digidol, ynghyd â llythrennedd a rhifedd, yn dod yn sgil trawsgwricwlaidd gorfodol y bydd rhaid ei wreiddio mewn unrhyw gwricwlwm a fabwysiedir. Mae cymhwysedd digidol yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan ddysgwyr y gallu i ddysgu, deall a defnyddio technoleg yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol. Wrth i'r bygythiadau seibr i sefydliadau addysgol barhau i esblygu, mae'n hanfodol

ein bod yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod y data critigol hwn yn cael ei ddiogelu. O ganlyniad, mae angen gwreiddio technoleg ddigidol yn ddiogel yn holl feysydd y cwricwlwm.

Nod cyffredinol y strategaeth yw cynorthwyo ysgolion sydd wedi'u galluogi'n ddigidol i sicrhau bod dysgwyr yn ffynnu ac yn gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi rôl yr awdurdod lleol wrth gyflawni'r weledigaeth ac mae wedi'i bwriadu ar gyfer yr holl ddysgwyr yn ein hysgolion, athrawon, llywodraethwyr, staff ategol, rhieni a phawb sy'n rhan o gymuned ysgol gyfan Ynys Môn. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth, ymgysylltwyd ag aelodau'r Fforwm TGCh (sy'n cynrychioli penaethiaid ysgolion cynradd), penaethiaid ysgolion uwchradd yr Ynys a phennaeth Canolfan Addysg y Bont a darparwyd crynodeb o'r ymatebion. Sefydlir trefniadau llywodraethiant cadarn i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gwireddu a bydd cynnydd yn cael ei adolygu bob chwarter trwy gyfrwng adroddiad cryno ar gamau gweithredu, canlyniadau, effaith, llwyddiannau a phroblemau. Bydd adroddiad cynnydd blynyddol ac adolygiad o'r strategaeth yn cael eu cwblhau hefyd.

Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weithredwr at bwysigrwydd y byd digidol a dywedodd bod technoleg yn dod yn fwyfwy amlwg bob wythnos a bod hynny'n berthnasol i Ynys Môn gymaint ag unrhyw le arall. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn enwedig cyfnod y pandemig, wedi dangos sut mae'r Awdurdod, ei weithwyr a'u alluoedd wedi addasu i ddelio â'r argyfwng trwy wneud y defnydd mwyaf posib o dechnoleg i sicrhau fod bywyd yn mynd yn ei flaen, ac yn arbennig felly mewn addysg. Erbyn hyn, mae cymhwysedd digidol yn sgil hanfodol a po fwyaf yw cyrhaeddiadau digidol disgyblion pan fyddant yn gadael yr ysgol yna'r mwyaf yw'r siawns y byddant yn diwallu anghenion y dyfodol wrth iddynt esblygu a newid. Lluniwyd y strategaeth i ddarparu cyfeiriad i bawb yn yr ysgolion a'r gymuned ddysgu a bydd yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth â'r holl brif gyfranogwyr yn y system addysg. Er bod cyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus yn bwysig i holl bartneriaid addysg yr Awdurdod, mae'n arbennig o bwysig i bobl ifanc o ran caniatáu iddynt wneud cynnydd mewn addysg a/neu yn y byd gwaith a hefyd fel dinasyddion, fel eu bod yn cyfrannu'n effeithiol i gymdeithas a'u cymunedau. Mae'r Cylch Strategol ar dudalen 5 y strategaeth yn crynhoi gweledigaeth yr Awdurdod a'r prif elfennau o safbwynt rhoi'r strategaeth ar waith. O ystyried cyflymder y newid yn y byd go iawn, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y presennol yn hytrach na'r tymor hir a bydd angen ei haddasu yn unol â hynny. Rhaid llongyfarch staff Gwasanaethau TG a Dysgu y Cyngor am greu strategaeth eglur, gryno a hawdd ei deall sy'n deillio o ystyriaeth ofalus ac a luniwyd ochr yn ochr â chyflawni cyfrifoldebau dydd i ddydd.

Croesawodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith y Strategaeth Ddigidol ar gyfer ysgolion fel un sy'n darparu buddsoddiad gwerthfawr mewn technoleg ddigidol mewn ysgolion a thrwy hynny osod sylfeini cadarn ar gyfer addysg yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at gyflymder datblygiadau yn ystod y 18 mis diwethaf a pha mor barod oedd y Cyngor i addasu i ddulliau newydd o weithio'n ddigidol; pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal y momentwm hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol ddrafft.**
- **Cymeradwyo'r cyllid ychwanegol o £135,439 sydd ei angen i roi'r strategaeth ar waith.**

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni fel y diffinnir ym Mharagraff 14 [gwybodaeth sy'n ymwneud â**

**materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno)] o Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

## 8. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION MÔN A CHWMNI CYNNAL CYF.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn nodi'r materion sy'n codi mewn perthynas â'r ddarpariaeth bresennol yn sgil mabwysiadu Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer ysgolion Ynys Môn. Roedd yr adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r materion ac yn gofyn am gymeradwyaeth a hawliau dirprwyo er mwyn gwireddu'r cynnig.

*Gan eu bod wedi datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, nid oedd Mr Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc na'r Cynghorwyr R. Meirion Jones ac Ieuan Williams yn bresennol yn y cyfarfod pan drafodwyd y mater.*

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad fel ffordd ymlaen.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant)<br>Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br>Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)<br>Liz Fletcher (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal y Gorllewin – Plant, BIPBC) (eitem 7 ymlaen)<br>Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)<br>Ned Michael (Pennaeth Gwasanaethau Tai)<br>Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu)<br>Huw Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)<br>Dawn Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)<br>Clare Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)<br>Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Llesiant)<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Ffion Roberts (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Margaret M. Roberts, Llŷr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys), Nia Hardaker (Swyddog Adolygu Annibynnol), Sioned Warren (*Voices from Care Cymru*) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol a chyflwynodd pawb eu hunain.

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 MATERION YN CODI**

Cyflwynwyd, i'r panel ei ystyried, adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) ar fynediad at weithgareddau cymdeithasol a hamdden i blant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn deillio o drafodaeth yng nghyfarfod y Panel ym mis Mehefin 2021 ar adroddiad am y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi lles emosiynol plant sy'n derbyn gofal yn ystod ac yn dilyn y pandemig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn falch bod yr adborth gan weithwyr cymdeithasol y cysylltwyd â nhw i gasglu gwybodaeth ynghylch gweithgareddau yr oedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt ac i ofyn a oedd unrhyw beth yn eu rhwystro rhag cymryd rhan, yn nodi ar y cyfan bod mynediad at weithgareddau'n agosáu at y lefelau a welwyd cyn y pandemig, er bod mwy o drefniadau

diogelwch Covid ar waith. Roedd yn galonogol hefyd derbyn adborth ar yr amrywiaeth eang o weithgareddau y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt ac mae'r manylion hynny wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Yn ogystal, mae gan ofalwyr maeth Ynys Môn fynediad am ddim i ganolfannau hamdden yr Ynys ac mae rhai plant a phobl ifanc yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hynny. Ers haf 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r cynllun Haf o Hwyl i ddarparu cynllun gofal dros yr haf i blant bregus, yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod, am chwe wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Y nod oedd ysgogi plant yn feddyliol a chorfforol, eu cyflwyno i weithgareddau a gemau newydd, datblygu eu sgiliau a darparu lle diogel iddynt gael mwynhau gwyliau'r haf. Yn ystod haf 2021, sefydlwyd wyth o ganolfannau ledled yr Ynys a darparwyd sesiynau dan ofal amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n cael eu rhestru yn yr adroddiad. Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol eleni o'r Gronfa Gaeaf Llawn Lles ac fe'i defnyddir i ddarparu cyfleoedd tebyg i blant a phobl ifanc bregus ledled yr Ynys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd ynghylch argaeledd gweithgareddau hamdden a chyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod. Er bod y pandemig a'r cyfyngiadau a ddaeth yn ei sgil wedi bod yn heriol ar brydiau, gyda rhai pobl ifanc yn ei chael yn anoddach nag eraill i ail-ymgysylltu â gweithgareddau wrth i'r cyfyngiadau lacio, roedd yn hyderus bod yr holl blant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod naill ai wedi ailgychwyn y gweithgareddau yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt cyn y pandemig, neu eu bod wedi dechrau gweithgareddau newydd, a bod hynny'n llesol i'w lles emosiynol a meddyliol. Mae gweithwyr cymdeithasol wedi cadw mewn cysylltiad â gofalwyr maeth a'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal trwy gydol y pandemig ac maent wedi darparu cymorth hefyd, trwy ddosbarthu pecynnau gweithgareddau er enghraifft. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn edrych ar gyfranogiad ac ymgysylltiad hefyd fel rhan o'u hadolygiad o'r cynlluniau a'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) bod lleoliad daearyddol yr Ynys yn golygu bod mwy o fynediad ar gael i rai gweithgareddau hamdden, yn enwedig y rheiny yn yr awyr agored, ar dir neu ar y môr, ac roedd hynny'n amlwg yn yr adborth a dderbyniwyd. Mae ymrwymiad a dyfeisgarwch gofalwyr wrth gefnogi gweithgareddau hamdden plant yn eu gofal wedi bod yn glodwiw ac maent yn haeddu diolch am hynny.

Roedd y Panel yn croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau cymdeithasol a hamdden i les plant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod a gofynnodd aelodau am sicrwydd pellach ynglŷn â'r pwyntiau a ganlyn -

- Wrth edrych ymlaen, ac o ystyried yr ansicrwydd sy'n bodoli o hyd ynghylch sefyllfa Covid-19 a sut fydd y sefyllfa'n datblygu yn ystod y misoedd nesaf a thu hwnt i hynny, beth yw'r rhagolygon ar gyfer darparu gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac a yw'r ddarpariaeth yn ddibynnol ar gyllid allanol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod tua 400 o sesiynau gweithgareddau amrywiol wedi'u cynnal yn ystod yr haf gyda chymorth arian grant ac ni fyddai'n bosib darparu'r un lefel ac amrywiaeth o weithgareddau heb yr arian hwnnw. Gwariwyd yr arian i gyd ac roedd cefnogaeth dda iawn i rai o'r sesiynau, o ystyried ffactorau megis y tywydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r cynllun Haf o Hwyl dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth drwy ganiatáu i'r Awdurdod gynnig cyfleoedd a phrofiadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal na fyddai wedi bod ar gael iddynt fel arall.

- A gynigiwyd gweithgaredd a/neu gyfle i bob plentyn a/neu berson ifanc sy'n derbyn gofal.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, er nad yw bob plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal angen neu eisiau "rhywbeth" o reidrwydd, mae'r cynnig ar gael i bawb. Mae rhai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trwy neu gyda'u gofalwyr maeth ac mae'r Fforwm Gofalwyr Maeth yn weithgar wrth wneud trefniadau o'r fath ar gyfer plant sy'n derbyn gofal maeth. Mae eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol prif lif. Mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu proses gyfathrebu gadarn i sicrhau bod gwybodaeth am gyfleoedd a gweithgareddau'n cael eu rhannu â phlant, pobl ifanc a'u gofalwyr.

- A yw'r Panel yn sicr fod y math o weithgareddau a drefnir yn cyd-fynd â'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddymuno ac i ba raddau y maen nhw'n cyfrannu at lunio'r ddarpariaeth hamdden/gweithgareddau. Wrth fynegi ychydig o bryder bod y ddarpariaeth hamdden/gweithgareddau a grëwyd yn ddibynnol ar grantiau, a bod hynny'n risg pe byddai'r arian grant hwnnw'n cael ei dynnu'n ôl, gofynnodd y Panel sut ellir gosod sylfeini mwy cynaliadwy i'r ddarpariaeth yn y dyfodol, os ystyrir ei fod yn cael yr effaith a ddymunir o ran cyfannu at wytnwch a llesiant plant a phobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod modd i'r Gwasanaeth gasglu barn plant a phobl ifanc mewn sawl ffordd, gan gynnwys yr adolygiadau a gynhelir gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol a'u cyswllt â'r plant rhwng cyfarfodydd; trwy weithwyr cymdeithasol a gofalwyr a thrwy *Voices from Care Cymru* sy'n gweithio ar brosiect i wella cyfranogiad ac ymgysylltiad plant. Efallai y bydd rhaid cynnal trafodaeth os oes costau ynghlwm â'r gweithgaredd/hobi/diddordeb, ond yn gyffredinol mae'r Gwasanaeth yn gallu gwireddu dymuniadau'r plentyn sy'n derbyn gofal trwy ddefnyddio'r gyllideb sydd heb ei neilltuo a bydd hefyd yn defnyddio cyllid o ffynonellau eraill lle bo hynny'n briodol e.e. Cronfa Dydd Gŵyl Dewi a/neu gyd-weithio â'r gofalwyr maeth a/neu'r teulu i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael yr un cyfleoedd a'u cyfoedion.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

**Ni wnaed unrhyw argymhellion pellach.**

## 4 GRŴP CYFRANOGIAD VOICES FROM CARE CYMRU

Yn absenoldeb Sioned Warren, *Voices from Care Cymru*, a oedd fod i ddarparu diweddariad ar gynnydd y grŵp cyfranogi i'r cyfarfod hwn, awgrymodd y Cadeirydd bod yr eitem yn cael ei gohirio i gyfarfod nesaf y Panel er mwyn caniatáu i *Voices from Care Cymru* ddarparu diweddariad ac ymateb i'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ac, yn ogystal, rhoi cyfle i'r Panel dderbyn sicrwydd ynghylch y materion a godwyd.

Yn dilyn trafodaeth bellach, pryd y tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'n golygu gadael y mater am dri mis arall, ac ar ôl cadarnhau na dderbyniwyd adroddiad cyn y cyfarfod hwn, cynigiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid trafod y mater gyda Sioned Warren mewn cyfarfod gyda *Voices from Care Cymru* a drefnwyd gan y Gwasanaeth yn ddiweddarach yr wythnos honno, a gofyn am adroddiad i'w gylchredeg i aelodau'r Panel er mwyn iddynt gynnig sylwadau a/neu ofyn cwestiynau yn y cyfamser, a bod y Gwasanaeth yn ymateb o fewn amserlen i'w chytuno.

**Cytunwyd i symud ymlaen yn unol â'r trefniant a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel yr amlinellir uchod.**

DRAFT

## 5 TEMPLEDI DIWYGIEDIG – CYNLLUN GOFAL A CHYMORTH RHAN 6 A CHYNLLUN LLWYBR

Cyflwynwyd, i'r Panel ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) yn ymgorffori templedi diwygiedig ar gyfer y Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 a'r Cynllun Llwybr.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Panel yn ymwybodol ers cryn amser o'r pryderon am y templedi yn y system WCCIS sy'n cael eu hystyried yn anhylaw gan ymarferwyr ac, yn bwysicach, yn anodd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu dilyn. Yn y cyfarfod ym mis Mehefin dywedwyd wrth y Panel y byddai'r templedi'n cael eu hadolygu ac, o ystyried yr adborth negyddol a gafwyd i'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 a'r Cynllun Llwybr yn arbennig, byddai blaenoriaeth yn cael ei roi i'r dogfennau hynny. Mae'r templedi diwygiedig sydd ynghlwm i'r adroddiad yn addasiadau o'r templedi gwreiddiol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsant eu drafftio, ac yn dilyn ymgynghori arnynt a'u diwygio mae'r Gwasanaeth wedi eu cymeradwyo. Mae'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 wedi'i leihau o 43 tudalen i 15 tudalen ac mae'r Cynllun Llwybr wedi'i leihau o 25 i 9 tudalen, ond maent yn parhau i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru. Cyflawnwyd hyn trwy ddileu unrhyw ddyblygu a thacluso trefn y templedi yn gyffredinol.

Gan fod y dogfennau'n darparu data perfformiad, eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod rhaid i'r Gwasanaeth sicrhau fod y fersiynau diwygiedig yn diwallu anghenion darparu data cyn eu hymgorffori yn y system WCCIS. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf a'r bwriad yw rhoi'r templedi newydd ar waith erbyn diwedd mis Ionawr 2022. Yn ogystal â chwtogi hyd a maint y cynlluniau, roedd y Gwasanaeth o'r farn bod lle i wneud y dogfennau'n fwy hwylus i'w defnyddio o ran arddull ac iaith fel eu bod yn haws eu defnyddio a'u deall.

Roedd y Panel y croesawu'r bwriad i edrych ar arddull y templedi ac roeddent yn credu y dylid eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch sy'n gyfforddus i'r defnyddiwr. Roedd y Panel yn credu hefyd na ddylai'r dogfennau fod yn rhy "fiwrocrataidd" neu'n ymarfer ticio blychau yn unig, ond bod angen iddynt fod yn ddogfennau "byw" y gellir eu diweddaru'n rhwydd wrth i amgylchiadau, safbwyntiau a dymuniadau newid. I'r perwyl hwnnw, awgrymwyd y byddai fformat digidol yn well ar gyfer diweddaru'r templedi.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaeth wedi datblygu "ap" fel ffordd well i blant a phobl ifanc gofnodi eu meddyliau a gellir ei ddefnyddio i fwydo gwybodaeth i'r templedi. Wrth gydnabod y gall y dogfennau ymddangos yn statig, pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Diogelu) nad dyma'r unig ffordd o gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc. Bu'n rhaid i'r Gwasanaeth reoli'r newidiadau i'r templedi yng nghyd-destun y gofynion cyfreithiol. Diwygiwyd y Cynllun Llwybr trwy weithio gyda pherson ifanc ac mae'r templed wedi cael ei dreialu gyda phum person ifanc sy'n gadael gofal ac roedd eu hymateb yn gadarnhaol. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod nad yw'r templedi diwygiedig yn berffaith, er eu bod yn well na'r rhai blaenorol.

**Cytunwyd i gymeradwyo'r templedi diwygiedig ar gyfer y Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 a'r Cynllun Llwybr fydd yn cael eu defnyddio o ddiwedd mis Ionawr 2022.**

**Ni wnaed unrhyw argymhellion pellach.**

## 6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 [gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol/gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn] o Atodlen 12A y Ddeddf honno."**



DRAFT

## 7 CANLYNIADAU ADDYSGOL PLANT A PHOBL IFANC SY'N DERBYN GOFAL

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Llesiant ddiweddariad llafar i'r Panel.

Wrth osod cyd-destun i'r diweddariad, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wrth y Panel bod trefniadau addysgol wedi newid yn sgil y pandemig a bod y trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad wedi newid hefyd. Yn 2020, defnyddiwyd graddau asesu canolfannau ac yn 2021 roedd perfformiad yn seiliedig ar raddau a bennwyd gan ganolfannau. Ni chynhaliwyd arholiadau yn ystod 2020 a 2021 a seiliwyd y graddau ar gyfuniad o ddyfarniadau gan ysgolion ac athrawon a phrofion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Ni chyhoeddwyd unrhyw ddata perfformiad yn ystod cyfnod y pandemig ac nid oes unrhyw ddata cymharol ar gael ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae trafodaethau cenedlaethol yn mynd rhagddynt ar sut i symud ymlaen yn 2022 a'r nod yw mynd yn ôl at system debyg i'r trefniadau blaenorol, ond nid oes unrhyw sicrwydd mai dyma fydd yn digwydd. Gan fod y broses o adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar gyraeddiadau disgyblion wedi newid hefyd, mae'n anodd darparu gwybodaeth am gynnydd disgyblion.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant bod yr Awdurdod yn ymwybodol fod angen sicrwydd ar ddisgyblion a bu'r Awdurdod yn pwyso ar CBAC i gael rhyw arwydd o'r trefniadau asesu fydd ar waith yn 2022, er iddo gydnabod bod hynny'n heriol oherwydd gallai'r amgylchiadau newid yn gyflym wrth i'r pandemig ei hun newid ac esblygu.

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Llesiant y wybodaeth a ganlyn i'r Panel -

- O'r 155 o blant sydd yng ngofal yr Awdurdod ar hyn o bryd, mae 120 o oedran ysgol (3 – 16 oed) a 24 yn 16 i 17 oed. Mae rhai o'r bobl ifanc mewn addysg ôl-16 ac mae eraill yn derbyn cymorth ac yn chwilio am waith.
- Mae cyfran o'r plant mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt yn ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd ar Ynys Môn ac mae eraill yn derbyn addysg uwchradd tu allan i'r sir; mae hynny yn wir hefyd am blant oed cynradd.
- Dengys y data a ddarparwyd gan ysgolion am gynnydd plant sy'n derbyn gofal bod 83.5% ar y trywydd iawn i gyrraedd eu targedau, roedd 4.6% yn perfformio'n is na'u targedau ac roedd 1.5% yn perfformio'n well na'u targedau; roedd gan 95.5% o ddisgyblion sy'n blant sy'n derbyn gofal lefelau presenoldeb da.
- Roedd rhai o'r bobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod i fod i gwblhau eu cyrsiau gradd yn ystod haf 2021.

Diolchodd y Panel i'r Gwasanaeth Dysgu am y wybodaeth ac roedd yn cydnabod bod darparu data ystyrlon yn anodd o dan yr amgylchiadau. Serch hynny, dywedodd y Panel, er mwyn iddo ef a'r Cyngor gyflawni eu cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol, bod angen iddo weld data a fydd yn rhoi sicrwydd iddo fod pob plentyn yng ngofal yr Awdurdod yn gwneud cynnydd yn unol â'r disgwyliadau a'u bod yn cyflawni eu potensial. I'r perwyl hwnnw, gofynnodd am adroddiad ysgrifenedig yng nghyfarfod nesaf y Panel yn nodi targedau pob plentyn sy'n derbyn gofal, eu perfformiad gwirioneddol yn erbyn y targed, eu hoedran a'u blwyddyn ysgol. Nododd y Panel hefyd bod nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn eu haddysg ar yr ynys yn galonogol, ond roedd yn dymuno gwybod pam fod eraill mewn darpariaeth tu allan i'r sir.

Wrth gydnabod pwysigrwydd y data perfformiad i bwrpasau hunanasesu a sicrwydd, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Llesiant bod y Cynllun Addysg Personol electronig wedi'i gwblhau yn awr a'i fod yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan ysgolion. Mae hyfforddiant pellach ar ddefnyddio'r Cynllun Addysg Personol wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf.

DRAFT

**Cytunwyd i –**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar.**
- **Gofyn i'r Gwasanaeth Dysgu ddarparu adroddiad i'r Panel yn ei gyfarfod nesaf yn manylu ar y targedau ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal, eu perfformiad gwirioneddol yn erbyn y targed, eu hoedran a'u blwyddyn ysgol. Dylai'r adroddiad roi sylw hefyd i'r rhesymau pam fod nifer fechan o blant sy'n derbyn gofal yn derbyn eu haddysg tu allan i'r sir.**

**8 CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel a gynhelir am 10:00am, dydd Mawrth 15 Mawrth 2021.

**Mrs Annwen Morgan**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24 Ionawr 2022 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2022;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2022 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwefror 2022** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 2 | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2020/21** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams<br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 3 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2022/23** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 4 | **Strategaeth Dai Lleol 2022-2027** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>20 Ionawr 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cludiant Ysgol – Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus** | | Dysgu / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Rhys H Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc / Huw Percy Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Meirion Jones Cyng R G Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 6 | **Polisi Cynnal Ffyrdd a Rheoli Asedau Priffyrdd** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | | I'w gadarnhau | |
| | | | | **Mawrth 2022** | | | |
| 7 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21** | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>8 Mawrth 2022 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2022 | |
| | | | | | | | |
| 8 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 10 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 11 | **Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>(Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Chwefror 2022) | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |
| 12 | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2022/23**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn – Pennu Ffi Safonol 2022/23**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 14 | **Ffioedd a Thaliadau 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 15 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2022/23** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 16 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 28 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |
| 18 | **Cyllideb Gyfalaf 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 28 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |
| | | | | | | | |
| 19 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |

Tudalen 33

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 21 | **Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022<br>I'w gadarnhau | |
| 22 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 23 | **Asesiad o Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>8 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn |

Tudalen 34

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol 15 Chwefror 2022<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| | | | | **Ebrill 2022** | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2022 | |
| | | | | **Mai 2022** | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2022 | |

Tudalen 35

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin 2022** | | | | | | | |
| 27 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22** | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr | | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2022 | |
| | | | | | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 29 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 30 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 31 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 32 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| | | | | **Gorffennaf 2022** | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2022 | |
| | | | | **Medi 2022** | | | |
| 34 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 35 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 36 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 37 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 38 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Chwefror – Medi 2022

Diweddarwyd 13 Ionawr 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 39 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>Dyddiadau i'w cadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |

Tudalen 39

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **24 IONAWR 2022** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2022/23** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 10 Mawrth 2022, ond, ar hyn o bryd argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

- Cyllideb arfaethedig cychwynnol ar gyfer 2022/23 o £158.365m;
- Cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,367.46;
- Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig cychwynnol a'r cynnydd yn y dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.

Mae'r adroddiad manwl ar baratoi cyllideb ddisymud 2022/23, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm fel Atodiadau 1 a 2.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig y manylir arni yn yr adroddiad hwn. Roedd yr opsiynau yn rhoi ystyriaeth i lefel y gwariant net yn seiliedig ar y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru ac opsiynau yn gysylltiedig â lefel y Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb arfaethedig yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng lleihau Gwasanaethau a chodi'r Dreth Gyngor.

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gosod y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch - A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2022/23 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2022/23 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb yw hwn a bydd yn cael ei adolygu cyn gosod a chymeradwyo cyllideb derfynol 2022/23. Wrth lunio'r cynigion ar gyfer y gyllideb, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?- | Mae manylion unrhyw gynigion arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Bu'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Mae / bydd y cynigion ar gyfer y gyllideb yn destun proses ymgynghori a rhoddir ystyriaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw cyn cytuno ar y gyllideb derfynol a'i chyflwyno i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo. |
| **5** | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23 yn rhoi ystyriaeth i'r effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y gyllideb yn arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd trethdalwyr Ynys Môn yn ei thalu. Mae'r rheiny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys i dderbyn cymorth trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a dylai hynny olygu na fydd effaith ariannol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn gyfyngedig. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **E -** | **Gyda phwy yr ymgynghorwyd?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae sylwadau'r UDA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n Aelod o'r UDA a rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed pan drafodwyd yr adroddiad hwn yn yr UDA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff yn cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| **5** | **Eiddo** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig yn cael eu trafod â'r Tîm Eiddo. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig yn cael eu trafod â'r Tîm TGCh. |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| **9** | **Cyrff Allanol / Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| • Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Refeniw Ddrafft 2022/23<br>• Atodiad 2 - Cyllideb Arfaethedig 2022/23 fesul Gwasanaeth |
| **Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach):** |
| • Cynllun Ariannol Tymor Canol 2022/23 – 2024/25 – Gweler Rhaglen cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2021 – Eitem 6 |

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2022/23**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi cyllideb refeniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23. Paratoir y gyllideb ar sail y rhagdybiaethau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 23 Rhagfyr 2021, a'r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac a drafodwyd yn y gwahanol weithdai a gynhaliwyd yn ystod yr haf a'r hydref.

**1.2.** Yna bydd y gyllideb dros dro a gymeradwyir gan y Pwyllgor Gwaith yn destun proses ymgynghori gyhoeddus ffurfiol, a fydd yn rhedeg o 25 Ionawr 2022 hyd at 8 Chwefror 2022.

**1.3.** Ar ôl derbyn ffigyrau'r setliad terfynol ar 2 Mawrth 2022, adolygir y cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb gan y Pwyllgor Sgriwtini ar 28 Chwefror 2022, a bydd y gyllideb yn cael ei hargymell i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022, gyda'r gyllideb derfynol ar gyfer 2022/23 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

## 2. PRIF RAGDYBIAETHAU YN CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn nodi nifer o ragdybiaethau ac mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u hystyried wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2022/23. Mae'r gyllideb ddigyfnewid yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i redeg gwasanaethau ar lefelau 2021/22 ond wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) ac i adlewyrchu'r costau yn 2022/23.

**2.2.** Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y gyllideb ddisymud ynghyd â newidiadau manylach (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) sy'n caniatáu ar gyfer codiadau mewn costau y gwyddys amdanynt e.e. ymrwymiadau cytundebol a mân gywiriadau i'r gyllideb. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau y gwyddys amdanynt i gyllid grant a mân gywiriadau i'r gyllideb y bernir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'n gywir y costau y mae'n eu hwynebu yn 2022/23.

## 3. SETLIAD DROS DRO

**3.1.** Mae'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2021, yn dangos cynnydd o £456m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru, sy'n cyfateb i gynnydd o 9.8% mewn termau arian parod. Fodd bynnag, mae £18.585m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i mewn a, phan addasir effaith y newidiadau hyn, mae'r gwir ffigwr yn dangos cynnydd o £437.4m, sy'n gynnydd o 9.4%. Dangosir y manylion yn Nhabl 1 isod:-

| Tabl 1<br>Setliad Dros Dro 2022/23 | | |
|---|---|---|
| | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| | **£'m** | **£'m** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) 2021/22 | 104.825 | 4,651.494 |
| | | |
| Addasiad ar gyfer newid yn Sylfaen y Dreth | - 0.064 | 0.000 |
| | | |
| **Grantiau blynyddoedd cynt a drosglwyddwyd i mewn / (allan)** | | |
| Rheoli Risg yr Arfordir | 0.000 | 0.286 |
| Ffioedd Clwyd | 0.000 | 13.300 |
| Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol | 0.111 | 5.000 |
| | | |
| **AEF 2021/22 wedi ei addasu** | **104.872** | **4,670.080** |
| **AEF Dros Dro 2022/23** | **114.549** | **5,107.507** |
| **Cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22** | **9.724** | **456.013** |
| **% Cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22** | **+ 9.27%** | **+ 9.80%** |
| **Cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22 wedi ei addasu** | **9.677** | **437.427** |
| **% cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22 wedi ei addasu** | **+ 9.23%** | **+ 9.37%** |

**3.2.** Mae nifer o wahanol setiau data yn cael eu haddasu yn y fformiwla dyrannu, yn cynnwys poblogaeth, nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau, plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion ysgol ac ati, ac mae eu heffaith yn wahanol ar ddyraniad pob awdurdod. Mae rhai awdurdodau'n elwa o'r addasiadau hyn, tra eu bod yn cael effaith negyddol ar awdurdodau eraill ac, o'r herwydd, nid yw pob awdurdod yn derbyn yr un lefel o gynnydd. Yn y setliad dros dro ar gyfer 2022/23, mae'r cynnydd yn amrywio o 11.2% (Sir Fynwy) i 8.4% (Blaenau Gwent). Mae cynnydd Ynys Môn 0.2% yn is na chyfartaledd Cymru, a dyma'r 11eg cynnydd uchaf o blith y 22 awdurdod.

## 4. Y PRIF NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB AR GYFER 2022/23

**4.1.** Manylir isod ar y prif newidiadau rhwng cyllideb derfynol 2021/22 a chyllideb ddrafft 2022/23.

### 4.2. Chwyddiant Cyflogau a Phwysau Staffio Arall

Bydd costau tâl yn newid yn flynyddol i adlewyrchu'r newidiadau staff dros y flwyddyn (staff newydd yn cael eu penodi i bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn derbyn cynyddiadau cyflog blynyddol a'r dyfarniad cyflog. Fel arfer, mae'r dyfarniad cyflog ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael ei gytuno cyn gosod y gyllideb ac, o'r herwydd mae'r man cychwyn ar gyfer y gyllideb gyflogau yn hysbys. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw dyfarniad cyflog 2021/22 ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, sy'n weithredol o fis Ebrill 2021, wedi cael ei gytuno ac mae hyn yn creu elfen o ansicrwydd ychwanegol ynghylch cywirdeb y cyllidebau cyflogau. Cynnig terfynol y cyflogwr yw codiad cyflog o 1.75% ac mae cyfrifiadau'r gyllideb yn rhagdybio mai dyma fydd y dyfarniad cyflog terfynol ar gyfer 2021/22. Mae'r gyllideb cyflogau staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer 2021/22 (yn cynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr) yn £47.5m ac, felly, bydd pob 1% o gynnydd yn y dyfarniad cyflog yn ychwanegu oddeutu £500k i gostau'r Cyngor.

Oherwydd yr uchod, mae amcangyfrif y dyfarniad cyflog ar gyfer 2022/23 yn fwy anodd na'r arfer. Mae amcangyfrif lefel y dyfarniad cyflog posib ar gyfer 2022/23 yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y cynnydd mewn chwyddiant a chynnydd sylweddol yn lefel y cyflog byw cenedlaethol a'r cyflog byw gwirioneddol ym mis Hydref 2021. Mae'r ffactorau hyn yn sicr o arwain yr Undebau i bwyso am ddyfarniad cyflog llawer uwch nag a gafwyd yn y gorffennol.

Mae cyllideb cyflogau athrawon ar gyfer 2021/22 oddeutu £31m (yn cynnwys cyfraniadau yswiriant cenedlaethol a phensiwn y cyflogwr). Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r dyfarniad cyflog ac mae'n effeithiol o fis Medi bob blwyddyn. Rhydd hyn rhyw sicrwydd i ni ynghylch cyllideb cyflogau athrawon ar gyfer rhan o 2022/23, ond mae cryn ansicrwydd ynghylch y dyfarniad cyflog o fis Medi 2022 ymlaen, am y rhesymau a nodwyd uchod. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r dyfarniad cyflog, ac maent wedi cadarnhau bod cyllid ar gyfer dyfarniad cyflog 2022/23 wedi'i ymgorffori yn y setliad, er nad ydynt wedi nodi lefel y dyfarniad cyflog sy'n cael ei gyllido.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys gynnydd o 1.25% yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr, sy'n golygu bod y gyfradd safonol ar gyfer cyfraniadau yn codi o 13.8% i 15.05%, cynnydd o 9.06%. Bydd hyn yn arwain at oddeutu £500k o gynnydd yng nghostau'r Cyngor.

O gymryd y cyfan o'r uchod i ystyriaeth, amcangyfrifir y bydd cynnydd cyffredinol o £4.053m yn y gyllideb gyflogau yn 2022/23.

**4.3. Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Thâl**

Mae lefel chwyddiant yn y DU wedi bod yn isel iawn ers nifer o flynyddoedd ac roedd yn syml iawn ei amcangyfrif, ond mae chwyddiant wedi codi'n sylweddol yn 2021, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn codi i 4.2% ym mis Hydref 2021, gyda chynnydd uwch mewn rhai nwyddau, gan gynnwys ynni a deunyddiau adeiladu. Rhagwelir y bydd chwyddiant yn cyrraedd 5% yn gynnar yn 2022, cyn dechrau gostwng yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

Mae costau'r Cyngor nad ydynt yn ymwneud â thâl yn cynnwys nifer o wahanol gontractau a dulliau caffael, ac mae chwyddiant yn effeithio'n wahanol ar bob un ohonynt:-

- Contractau tymor hir lle mae'r cyfrifiad chwyddiant wedi'i ymgorffori yn y contract gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant a benderfynwyd ymlaen llaw ac mae'r ffigwr ar gyfer pwynt penodol mewn amser yn cael ei ddefnyddio. Mae'r mathau hyn o gontract yn tueddu i ffafrio'r Cyngor pan fydd chwyddiant yn codi, ond maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd gyda mathau arbennig o nwyddau sy'n cael effaith ar gostau'r contractwr, e.e. bydd gan y ffactor chwyddiant ar gyfer y contract casglu gwastraff gysylltiad cryf iawn â chost tanwydd gan fod hwn yn gost sylweddol i'r contractwr.
- Contractau lle mae'r cynnydd blynyddol yn cael ei negodi. Maent yn cynnwys ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio a chontractau gofal eraill. Nid y CPI yw'r prif ffactor o ran cynnydd yn y prisiau hyn gan mai staffio yw'r brif gost. Mae lefel y chwyddiant yn gysylltiedig â chyflog, a'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol yn arbennig.
- Cytundebau fframwaith tymor hir lle mae'r pris blynyddol yn cael ei osod gan y fframwaith ac nid fel rhan o gytundeb unigol rhwng y Cyngor a'r cyflenwr / contractwr. Maent yn cynnwys ein prif gontractau ynni. Unwaith eto, bydd cynnydd yn y pris yn gysylltiedig â ffactorau penodol sy'n ymwneud â'r nwyddau a gyflenwir, yn hytrach na defnyddio'r CPI fel sail i'r cynnydd.
- Nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu pryd a phan fydd eu hangen, naill ai trwy broses dendr unwaith ac am byth, derbyn dyfynbrisiau neu godi archeb. Mae'r costau hyn yn ddarostyngedig i bwysau chwyddiant gan fod y pris y mae'r Cyngor yn ei dalu yn ddibynnol ar y pris pan gyflwynir yr archeb neu pan dderbynnir y tendr.

Wrth lunio'r gyllideb ddisymud, caniatawyd ar gyfer y lefel chwyddiant a benderfynwyd gan gontract penodol. Lle nad oes cytundeb ffurfiol yn nodi sut y penderfynir ar chwyddiant, caniatawyd ar gyfer lefel gyffredinol o 2%, gyda chynnydd o 3% yn y cyllidebau ynni a chynnydd o 5% yn y contractau Gwasanaethau Cymdeithasol, lle mae costau'n cael eu gyrru gan gynnydd mewn costau staffio.

Dros y 4 blynedd diwethaf, defnyddiwyd ffigwr cynnydd cyffredinol o 3% ar gyfer cyllidebau ffioedd a thaliadau anstatudol a defnyddiwyd y ffigwr hwn eto yn 2022/23, er bod gan wasanaethau'r disgresiwn i gynyddu ffioedd a thaliadau unigol gan swm sy'n fwy neu'n llai na'r ffigwr hwn, ar yr amod bod cynnydd o 3% yn eu hincwm cyffredinol.

Y cynnydd net yn yr addasiadau ar gyfer chwyddiant heblaw am gyflogau ac incwm anstatudol yw £2.479m.

**4.4. Niferoedd Disgyblion**

Bob blwyddyn, mae effaith y newid yn nifer y disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gosod cyllideb ac mae niferoedd disgyblion ym mis Medi 2021 yn cael eu defnyddio fel sail i gyllideb 2022/23. Ar gyfer 2022/23, mae nifer y disgyblion cynradd wedi parhau i ostwng, a gwelwyd gostyngiad pellach o 126 disgybl, tra bod cynnydd o 89 yn nifer y disgyblion uwchradd. Yn ogystal, roedd cynnydd o 12 disgybl yng Nghanolfan Addysg y Bont. Effaith net y newidiadau hyn yw cynnydd o £295k yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion.

**4.5. Ardollau**

Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ardollau a godir ar y Cyngor gan gyrff eraill sydd â phŵer statudol i osod ardoll. Y brif ardoll a godir yw ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sydd yn gosod ardoll gyffredinol ar gyfer chwe awdurdod Gogledd Cymru ac yna mae'n cael ei rhannu ar draws y chwe awdurdod yn seiliedig ar boblogaeth. Yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021, penderfynodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gynnydd o 6.3% yn yr ardoll ar gyfer y chwe awdurdod, sy'n golygu cynnydd o £225k yn ardoll y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod yr ardoll a gyllidir gan y Cyngor yn £3.915m.

Mae'n ofynnol yn awr i chwe Awdurdod Gogledd Cymru sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) i fod yn gyfrifol am bolisi strategol ym maes trafnidiaeth a chynllunio a datblygu economaidd ar lefel ranbarthol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar gyfrifoldebau'r CBC a bydd y CBC yn penderfynu ar yr ardoll a godir ar bob awdurdod lleol mewn cyfarfod ddiwedd mis Ionawr 2022. I bwrpas y gyllideb gychwynnol, mae amcangyfrif o £20k wedi'i gynnwys fel amcangyfrif o ardoll y CBC, ond gallai'r swm hwnnw newid.

**4.6. Costau Cyllido Cyfalaf**

Mae Costau Cyllido Cyfalaf yn cynnwys y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), costau llog blynyddol ar fenthyciadau cyfredol a'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau. Mae'r newid yn y polisi Darpariaeth Refeniw Isaf yn 2018 wedi arwain at orddarpariaeth yn y MRP yn y gorffennol. Mae'r orddarpariaeth hon yn cynnig rhywfaint o gyfle i leihau cost yr MRP yn y dyfodol, ar yr un pryd â sicrhau bod y ddarpariaeth a wneir yn ddarbodus. Ychydig o flynyddoedd yn ôl, cymerodd y Cyngor fenthyciadau di-log i dalu am waith arbed ynni yn adeiladau'r Cyngor. Mae'r benthyciadau hyn yn agosáu at gael eu had-dalu'n llawn ac mae hynny'n golygu bod modd gostwng y costau cyllido cyfalaf. Mae llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau wedi bod yn is nag erioed yn ystod 2020 a 2021, ac nid oes disgwyl iddo godi'n sylweddol yn ystod 2022/23, felly, mae'r gyllideb ar gyfer llog a dderbyniwyd wedi cael ei haddasu yn unol â hynny. Effaith net y tri phwynt a nodwyd uchod yw gostyngiad o £183k yn y gyllideb cyllido cyfalaf.

**4.7. Cyllidebau Wrth Gefn a Mân Newidiadau Eraill**

Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, mae nifer o gyllidebau wrth gefn wedi'u hymgorffori yn y gyllideb i gwrdd â chostau tymor penodol, risgiau posib y gall bod angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn neu fel arian wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i'r pwysau ar gyllidebau gynyddu neu fel mae pethau annisgwyl yn digwydd. Mae'r cyllidebau wrth gefn hyn yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a daethpwyd i'r casgliad y gellir tynnu £122k o'r gyllideb o ganlyniad i'r addasiadau hyn i'r cyllidebau wrth gefn a mân newidiadau eraill yn y gyllideb na roddir sylw iddynt yn yr addasiadau y manylir arnynt uchod.

### 4.8. Disgwyliadau Cyllido gan Lywodraeth Cymru

Wrth benderfynu ar lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer pob Cyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r glir bod yr AEF yn darparu cyllid ar gyfer nifer o bwysau ar gostau y bydd y Cyngor yn eu hwynebu yn 2022/23 ac ni fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol ar eu cyfer. Cyfrifoldeb pob Cyngor yw darparu cyllid digonol yn y gyllideb flynyddol i gwrdd â'r costau hyn. Mae'r prif feysydd y mae angen caniatáu ar eu cyfer fel a ganlyn:-

- **Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i Staff Gofal**
  Mae staff gofal y Cyngor ei hun yn derbyn cyflog uwch na lefel y cyflog byw gwirioneddol ond mae'n debygol bod y darparwyr allanol yn talu cyflogau sy'n is na'r lefel hon. Y gwahaniaeth rhwng y cyflog byw cenedlaethol (statudol) a'r cyflog byw gwirioneddol yw £1 yr awr. Wrth lunio'r gyllideb gychwynnol, caniatawyd 5% fel chwyddiant ar ffioedd gofal darparwyr allanol. Bydd y gofyn ar ddarparwyr allanol i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i staff gofal yn arwain at gynnydd o fwy na 5% yn eu costau, ac amcangyfrifir y bydd angen swm ychwanegol o £200k i gwrdd â'r costau ychwanegol.

- **Atal Digartrefedd**
  Yn ystod y Pandemig, roedd cynnydd sylweddol mewn gwariant ar Atal Digartrefedd ac fe'i cyllidwyd o Gronfa Caledi Covid Llywodraeth Cymru. Daw'r cyllid hwn i ben yn 2022/23, gyda'r cyllid yn cael ei ymgorffori yn y setliad. Amcangyfrifir bod cost cynnal y lefel gwasanaeth ychwanegol hwn yn £530k. Dylid nodi bod grant ar wahân o £15m yn cael ei darparu ledled Cymru ac, er na chytunwyd ar y dull dosbarthu eto amcangyfrifi y gallai Ynys Môn dderbyn £180k o'r cyllid grant ychwanegol hwn. Felly, caniatawyd ar gyfer y £350k sy'n weddill fel yr angen am gyllid ychwanegol, er efallai y bydd angen addasu'r swm pan fydd y dyraniad grant yn hysbys.

- **Y Gronfa Galedi Covid**
  Yn 2020/21 a 2021/22, mae costau ychwanegol a cholled incwm oherwydd Covid wedi cael eu cyllido trwy Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Wrth i ni symud allan o'r pandemig, mae disgwyl i ddelio â Covid ddod yn fusnes fel arfer, a bydd rhai o'r costau ychwanegol hyn (glanhau ychwanegol, staff dros dro, cyfarpar diogelu personol ac ati) yn dod yn gostau busnes arferol i'r Cyngor. O ganlyniad, ni fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid penodol yn 2022/23, ond maent wedi cydnabod y costau uwch hyn yn y setliad. Mae'n anodd amcangyfrif y costau ychwanegol gwirioneddol hyn i'r Cyngor yn y dyfodol gan eu bod yn ddibynnol ar nifer yr achosion a pha mor ddifrifol fydd straeniau'r feirws yn y dyfodol. Felly, mae'n ddoeth cadw arian wrth gefn y gellir ychwanegu ato hefyd o gronfeydd a balansau cyffredinol y Cyngor os bydd angen. Bydd swm wrth gefn o £300k ar gyfer 2022/23 i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn, er y dylid nodi bod rhai o'r costau yr oedd y gronfa galedi'n darparu ar eu cyfer wedi cael eu hymgorffori yn y brif gyllideb (ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio uwch, glanhau ychwanegol mewn ysgolion ac atal digartrefedd). Mae'r swm a ddyrannwyd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddwn yn symud o sefyllfa pandemig i sefyllfa lle mae'r feirws yn endemig yn ystod 2022, ond mae yna bob amser risg y gallai'r sefyllfa waethygu unwaith eto ac y bydd y pandemig yn parhau gyda chyfyngiadau pellach.

- **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**
  Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod nifer o ddyletswyddau penodol newydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys sut mae cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal a chynnal asesiadau perfformiad. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) rhanbarthol, a bydd y costau wedi'u cynnwys yn yr ardoll (gweler uchod). Amcangyfrifir y bydd angen £78k yn ychwanegol i gwrdd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn. Mae'r Cyngor wedi gwneud buddsoddiad cyfalaf mewn technoleg newydd yn ystod 2021/22 i alluogi'r Cyngor i gynnal cyfarfodydd hybrid.

**4.9. Cynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi**

Yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2021, rhoddodd y Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyaeth i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 50%. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cynhyrchu £451k o gyllid ychwanegol. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddefnyddio £65k i gyllido dau aelod ychwanegol o staff yn y tîm Dreth Gyngor (ymgorfforwyd y newid hwn yn y gyllideb cyflogau). Gedy hyn swm o £386k i'w ddyrannu i brosiectau i helpu pobl i brynu eu cartref eu hunain a hyrwyddo'r economi leol.

**4.10. Buddsoddi i fynd i'r afael â Materion a Risgiau Gwasanaeth**

Mae gwasanaethau'r Cyngor wedi wynebu cyfnod hir o gyni lle bu'n rhaid gostwng capasiti a darparu llai o wasanaethau. Ers 2013/14, gwireddwyd dros £25m o arbedion er mwyn cydbwyso'r gyllideb bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at gynyddu risgiau mewn nifer o wasanaethau. Mae setliad Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle yn awr i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai o'r risgiau hyn ac ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen hanfodol.

Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Gwasanaeth benderfynu pa lefel o gyllid fyddai ei angen i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â materion a risgiau gwasanaeth. Ar sail y bidiau cychwynnol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi adolygu lefel y symiau y gofynnwyd amdanynt ac mae'r symiau a ganlyn wedi'u cynnwys yn y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Manylir arnynt yn Nhabl 2 isod, ynghyd â chrynodeb o'r risgiau a'r materion y bydd y buddsoddiad yn mynd i'r afael â hwy.

**Tabl 2**

**Crynodeb o'r Buddsoddiad Arfaethedig mewn Gwasanaethau**

| Gwasanaeth | Swm a Ddyrannwyd £'000 | Risgiau a Materion fydd yn cael sylw |
|---|---:|---|
| Addysg | 1,120 | |
| Gwasanaethau Plant | 489 | Ar hyn o bryd, mae pwysau mewn perthynas â chostau lleoliadau preswyl arbenigol na ellir ymdrin â nhw'n lleol. Yn ogystal, mae nifer y plant sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Arbenigol i Blant wedi cynyddu dros 67% yn ystod y 3 blynedd diwethaf a bydd newidiadau mewn darnau amrywiol o ddeddfwriaeth yn arwain at bwysau ychwanegol ar y tîm hwn. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth yn caniatáu i ni fynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol hyn. |
| Gwasanaethau Oedolion | 258 | Bydd buddsoddiad ychwanegol yn darparu cyllid i ddelio â'r galw cynyddol ond bydd hefyd yn cynyddu'r capasiti o fewn y gwasanaeth, i drawsnewid a modelu prosesau busnes a darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn lleihau risgiau comisiynu ac yn darparu dulliau gwell o fesur perfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. |
| Rheoleiddio | 196 | Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn mynd i'r afael â thri phrif faes yn y Gwasanaeth: Morwrol, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd.<br><br>Morwrol - Bydd y buddsoddiad yn gwella'r capasiti i sicrhau y gellir rheoli holl ddefnyddwyr ardaloedd morwrol yn fwy effeithiol ac yn caniatáu nodi a lliniaru risgiau morwrol yn well a rheoli badau dŵr.<br><br>Gwarchod y Cyhoedd – Mae sicrhau amgylchedd fyw a gweithio diogel ac iach i breswylwyr a busnesau yn |

| Gwasanaeth | Swm a Ddyrannwyd £'000 | Risgiau a Materion fydd yn cael sylw |
|---|---|---|
| | | ddyletswydd gorfforaethol amlwg. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn caniatau i'r Gwasanaeth ymateb yn effeithiol i bryderon a digwyddiadau amgylcheddol.<br><br>Datblygu Economaidd – Mae'r Ynys yn wynebu nifer o heriau economaidd-gymdeithasol. Bydd yn hollbwysig i'r Gwasanaeth feddu ar y gallu i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gydlynol ac effeithiol, gyda'r nod o sicrhau mewnfuddsoddiad i'r Ynys, dylanwadu ar weithgareddau economaidd rhanbarthol a chefnogi asedau economaidd holl bwysig yr Ynys. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 446 | Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn darparu cyllid i ddelio â risgiau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar draws y gwasanaeth (datgarboneiddio, clefyd coed Ynn, newidiadau yn y galw am wasanaethau a disgwyliadau'r cyhoedd ar ôl Covid o ran hylendid a glendid adeiladau cyhoeddus). Bydd hefyd yn caniatáu i brosiectau gael eu datblygu i wneud cais am gyllid grant allanol yn enwedig mewn ymateb i amcan y Cyngor i ddod yn sefydliad carbon sero erbyn 2030. |
| Adnoddau | 58 | Bydd y cyllid ychwanegol yn cynyddu capasiti yn y Gwasanaeth a fydd yn caniatau moderneiddio systemau busnes a phrosesau busnes. Bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac yn darparu gwell gwasanaeth cwsmer i gwsmeriaid mewnol ac allanol. |
| Trawsnewid | 297 | Bydd y cyllid ychwanegol yn cynyddu'r capasiti o fewn y Gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth i wasanaethau i barhau i foderneiddio a gwella gwasanaethau a phrosesau, yn enwedig gwella systemau TG. |
| **CYFANSWM** | **2,864** | |

Nid yw'r amser byr rhwng cyhoeddi setliad dros dro Llywodraeth Cymru a'r angen i gyhoeddi'r cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb wedi caniatáu i'r Aelodau archwilio'r holl fuddsoddiadau arfaethedig yn llawn a'u herio. Cyn mabwysiadu'r gyllideb derfynol ym mis Mawrth, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i archwilio'r cynigion manwl a gyflwynwyd gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Gwasanaeth.

## 5. Y SEFYLLFA GYLLIDO

**5.1.** Ar ôl cymryd y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru i ystyriaeth (fel y nodir ym mharagraff 3) a'r prif newidiadau i'r gyllideb (fel y nodir ym mharagraff 4), mae'r sefyllfa gyllido cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor wedi'i nodi yn Nhabl 3 isod:-

| Tabl 3<br>Y Bwlch Cyllido 2022/23 | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2021/22** | **£'m** | **£'m**<br>**147.420** |
| **Prif Addasiadau i'r Gyllideb (fel y nodir ym Mharagraff 4)** | | |
| Chwyddiant Cyflog a Chostau Staffio Eraill | 4.053 | |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Thâl | 2.479 | |
| Niferoedd Disgyblion | 0.295 | |
| Ardollau | 0.245 | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | (0.183) | |
| Cyllidebau Wrth Gefn a Mân Addasiadau Eraill | (0.122) | |
| | | 6.767 |
| Disgwyliadau Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 0.928 |
| Defnyddio Cyllid Ychwanegol o'r Premiwm ar Ail Gartrefi | | 0.386 |
| Buddsoddi i fynd i'r afael â Materion a Risgiau Gwasanaeth | | 2.864 |
| Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Cychwynnol 2022/23 | | **158.365** |
| **Cyllidir gan** | | |
| Grant Cymorth Refeniw | (89.056) | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | (25.493) | |
| | | (114.549) |
| Cyllideb Dreth Gyngor 2021/22 (wedi'i haddasu ar gyfer y newid yn sail y dreth a chynnydd yn y premiwm ar ail gartrefi) | | (42.957) |
| **Cyfanswm Cyllid cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor** | | **(157.506)** |
| **Cyllid (Gwarged) / Diffyg (cyn unrhyw newid yn y Dreth Gyngor)** | | **0.859** |

**5.2.** Er mwyn cyllido'r diffyg o £0.859m, byddai angen cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor. Byddai hyn yn golygu bod y Dreth ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,367.46, sef cynnydd blynyddol o £26.82 a chynnydd wythnosol o £0.52.

## 6. RISGIAU CYLLIDEBOL

**6.1.** Wrth osod y gyllideb, mae angen asesu nifer o risgiau ariannol a allai greu cost ariannol i'r Cyngor. Mae'r cynnig ar gyfer y gyllideb yn caniatáu ar gyfer rhai o'r risgiau hyn, ond nid yw eraill wedi eu cynnwys yn y gyllideb a byddai balansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cwrdd â nhw pe byddai'r risg yn cael ei wireddu fel cost ariannol yn 2022/23.

**6.2.** Ar hyn o bryd, lefel balansau cyffredinol heb eu clustnodi y Cyngor yw £9.3m. Mae'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn dyrannu £1.68m o'r balansau hyn fel cyllid cyfalaf, sydd yn gostwng y balans heb ei glustnodi i £7.6m.

**6.3** Mae sefyllfa gyfredol cyllideb refeniw 2021/22 yn amcangyfrif tanwariant ac, er ei bod yn anodd amcangyfrif lefel derfynol y tanwariant yn gywir, disgwylir y bydd yn £1m o leiaf. Ychwanegir y swm hwn yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor ac, os yw'r tanwariant disgwyliedig yn £1m, yna byddai hyn yn codi balansau cyffredinol y Cyngor i £8.6m.

**6.4.** Fel rheol y fawd, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod ffigwr o 5% o'r gyllideb refeniw net fel isafswm ar gyfer y balans cyffredinol. Ar sail y gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2022/23 o £158.365m, yr isafswm fyddai ei angen yw £7.9m.

**6.5.** Mae nifer o risgiau ariannol na chaniatawyd ar eu cyfer yn y gyllideb, neu mae'n bosib nad yw'r gyllideb ond yn caniatáu ar eu cyfer yn rhannol, ac maent yn cynnwys:-

- **Costau Covid a cholled incwm posib -** Mae'r gyllideb yn cynnwys swm o £300k fel cyllideb wrth gefn, ond efallai na fydd hyn yn ddigon os bydd y sefyllfa Covid yn gwaethygu eto yn 2022/23 a chyfyngiadau pellach yn cael eu hailgyflwyno.
- **Dyfarniad Cyflog –** fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 uchod, cynyddwyd y gyllideb i adlewyrchu amcangyfrif o'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2021/22 a 2022/23, ond mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch y dyfarniadau cyflog. Os yw'r dyfarniadau terfynol y cytunir arnynt yn uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb, bydd y gost yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor yn 2022/23 cyn eu cywiro yng nghyllideb 2023/24.
- **Chwyddiant Cyffredinol -** Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae lefel chwyddiant prisiau cyffredinol wedi codi'n sylweddol o gymharu â'i lefel dros nifer o flynyddoedd. Mae'r ffaith fod gan y Cyngor nifer o gontractau mawr hirdymor gyda chyflenwyr allanol (cynnal a chadw ffyrdd, prydau ysgol, cludiant ysgol, cyflenwadau ynni ac ati) yn rhoi lefel o amddiffyniad i'r Cyngor yn erbyn cynnydd mewn prisiau, gan fod y pris wedi'i gynnwys yn nhelerau'r contract presennol. Fodd bynnag, mae risg o hyd y bydd cynnydd mewn prisiau yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y gyllideb refeniw yn 2022/23.
- **Galw am Wasanaethau -** Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â lefel y galw presennol mewn rhai gwasanaethau lle gall y galw amrywio (Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Digartrefedd, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau'n creu costau ariannol ychwanegol i'r Cyngor nad yw'r cyllidebau presennol yn darparu ar eu cyfer.
- **Incwm Grant** – Yn ogystal â'r cyllid a dderbynnir trwy'r Cyllid Allanol Cyfun, mae'r Cyngor yn derbyn lefel sylweddol o gyllid ychwanegol ar ffurf grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Pan fydd lefel grantiau penodol yn disgyn, nid yw bob amser yn bosib ymateb yn gyflym i'r newid gan fod y gwasanaeth a gyllidir trwy'r grant yn cael ei integreiddio i'r gwasanaeth a gyllidir o gyllideb graidd y Cyngor. Felly, mae oedi rhwng gostwng y cyllid a gallu'r Cyngor i leihau'r gost gysylltiedig trwy aildrefnu'r gwasanaeth.
- **Awdurdod Iechyd Porthladd** - Bydd rhaid i'r Cyngor ysgwyddo cyfrifoldebau newydd fel Awdurdod Iechyd Porthladd ar gyfer Caergybi. Bydd y dyletswyddau ychwanegol yn golygu y bydd rhaid i'r Cyngor recriwtio staff a chreu capasiti ychwanegol heb unrhyw sicrwydd y bydd yr incwm a gynhyrchir yn cwrdd â chost y gwasanaeth. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru a CThEM ynghylch a ydynt yn gallu gwarantu'r costau. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn llwyddiannus, efallai y bydd y Cyngor yn wynebu costau ychwanegol yn 2022/23 nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb arfaethedig.

**6.6.** Oherwydd y risgiau uchod, sydd yn uwch nag mewn unrhyw flwyddyn arferol, mae'n ddoeth i'r Cyngor gynnal balans cyffredinol sy'n uwch na 5% o'r gyllideb refeniw net.

## 7. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL DIWYGIEDIG

**7.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn amcangyfrif y bydd angen cynnydd o £3.3m yng nghyllideb refeniw net y Cyngor yn 2023/24 a £3.6m yn 2024/25, dim ond er mwyn cwrdd â chostau chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau, costau uwch ar gontractau a gafodd eu tendro a'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau.

**7.2.** Mae setliad dros dro 2022/23 yn nodi cynnydd dangosol o 3.5% yn y Cyllid Allanol Cyfun yng Nghymru yn 2023/24 a 2.4% yn 2024/25. Pe byddai Ynys Môn yn derbyn y cynnydd hwn, yna byddai'n cynhyrchu £4.1m yn ychwanegol yn 2023/24 a £2.8m yn 2024/25. Er dylid nodi bod y cyllid yn ddibynnol ar gyflawni'r incwm a ragwelir o Drethi Annomestig ar draws Cymru a pha effaith fydd newidiadau yn y setiau data yn eu cael ar ddyraniad Ynys Môn trwy'r fformiwla dyrannu.

**7.3.** Ar sail yr uchod, byddai modd parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn 2023/24, gyda lefel y buddsoddiad yn dibynnu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor, ond mae'r sefyllfa'n dechrau gwaethygu eto yn 2024/25 a byddai angen cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor dim ond i gynnal lefelau gwasanaeth presennol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigyrau'n seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a gallant newid yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

## 8. MATERION I'W PENDERFYNU

**8.1.** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 10 Mawrth 2022, ond ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

- Cyllideb arfaethedig cychwynnol ar gyfer 2022/23 o £158.365m;
- Cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,367.46;
- Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig cychwynnol a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.

**ATODIAD 2**

| CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2022/23 FESUL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2021/22** | **Cyllideb Arfaethedig 2022/23** | **Symudiad** | **% Newid** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 42.628 | 45.245 | + 2.617 | + 6.14 |
| Addysg Ganolog | 10.974 | 10.889 | - 0.085 | - 0.78 |
| Diwylliant | 1.208 | 1.270 | + 0.062 | + 5.13 |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **54.810** | **57.404** | **+ 2.594** | **+ 4.73** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 6.384 | 6.907 | + 0.523 | + 8.19 |
| Eiddo | 0.922 | 1.404 | + 0.482 | + 52.25 |
| Gwastraff | 8.825 | 9.257 | + 0.432 | + 4.89 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **16.131** | **17.568** | **+ 1.437** | **+ 8.91** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd a Morwrol | 1.955 | 2.221 | + 0.266 | + 13.63 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2.247 | 2.386 | + 0.139 | +6.18 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **4.202** | **4.607** | **+ 0.405** | **+9.65** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **27.733** | **29.732** | **+ 1.999** | **+ 7.21** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **11.188** | **12.115** | **+ 0.927** | **+ 8.29** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.368 | 1.480 | + 0.112 | + 8.16 |
| TGCh | 3.200 | 3.708 | + 0.508 | + 15.88 |
| Trawsnewid | 0.869 | 0.999 | + 0.130 | +15.02 |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **5.437** | **6.187** | **+ 0.750** | **+ 13.80** |
| | | | | |
| **Tai** | **1.247** | **1.914** | **+ 0.667** | **+ 53.48** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **3.236** | **3.484** | **+ 0.248** | **+ 7.67** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **1.708** | **1.857** | **+ 0.149** | **+ 8.71** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **125.692** | **134.868** | **+ 9.176** | **+ 7.30** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.636 | 0.736 | + 0.100 | + 15.67 |
| Ardollau | 3.695 | 3.921 | + 0.226 | + 6.12 |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3.010 | 3.305 | + 0.295 | + 9.80 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 7.393 | 7.210 | - 0.183 | - 2.48 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 0.109 | 0.109 | 0.000 | 0.00 |
| Tâl a godir ar y CRT | (0.700) | (0.800) | - 0.100 | - 14.28 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6.181 | 6.304 | + 0.123 | + 2.00 |
| Cyllidebau Wrth Gefn | 1.333 | 2.640 | + 1.307 | + 98.05 |
| Rhyddhad Dewisol at y Dreth | 0.071 | 0.072 | + 0.001 | + 1.41 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Cyfalaf** | **21.728** | **23.497** | **+ 1.769** | **+ 9.44** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB** | **147.420** | **158.365** | **10.945** | **+ 7.42** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 IONAWR 2022** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF 2022/23 – CYNNIG CYCHWYNNOL** |
| **Deiliad(Deiliaid) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **R MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amh** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

### 2. ARGYMHELLION

**2.1** Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2022/23 i'r Cyngor llawn:-

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 1,322 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 4.2. | 5,042 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd | Para 5.2 a Thabl 3 | 1,432 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Wedi'u cyllido â chronfeydd wrth gefn a benthyca digefnogaeth) | Para 5.3 a Thabl 4 | 783 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Para 6 | 8,598 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 18,784 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2022/23** | | **35,961** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 1,486 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 2,157 |
| Balansau Cyffredinol | | 1,681 |
| Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 1,168 |
| Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 5,261 |
| Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn ystod y Flwyddyn | | 10,099 |
| Benthyca Digefnogaeth CRT | | 6,000 |
| Derbyniadau Cyfalaf | | 600 |
| Grantiau Allanol | | 4,854 |
| Arian Wrth Gefn Glustnodedig | | 1,195 |
| Benthyca Digefnogaeth o'r Gronfa Gyffredinol | | 138 |
| Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | | 1,322 |
| **2022/23 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **35,961** |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae nifer o gynlluniau ychwanegol i'w hystyried yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ffactor sy'n sbarduno'r cyllid yw fforddiadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyllid grant allanol. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Dirprwyir y mater i'r Pwyllgor Gwaith i gynnig y gyllideb gyfalaf. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Amh |

| **DD– Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac yn rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut? | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau uwch yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod â phwy. | Mae prosiectau cyfalaf mewn perthynas ag Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r CRT yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan yn y gwaith o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Bydd y gyllideb gyfalaf yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb cyn bod y Cyngor yn ei chymeradwyo'n derfynol ym Mawrth 2022. |
| **5** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac yn rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion A NODIR wedi'u nodi yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Heb ganfod dim. |
| **7** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Heb ganfod dim. |

| E - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(gorfodol) | Sylwadau'r UDA wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(gorfodol) | Amh. – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA ac mae unrhyw sylwadau wedi'u hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn yn yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| 5 | **Eiddo** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh. |
| 7 | **Caffael** | I'w gadarnhau. |
| 8 | **Sgriwtini** | Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau bob rheolwr. |
| 9 | **Cyrff allanol / eraill** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2022/23
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig 2022/23

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad y Strategaeth Gyfalaf – Cyngor llawn 9 Mawrth 2021
Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Cyngor llawn 9 Mawrth 2021

**ATODIAD 1**

**CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2022/23**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2022/23, a nodir isod, yn ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2021 a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

**2.1.** Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn a chaiff ei diweddaru ar gyfer 2022/23 i adlewyrchu'r lefelau cyllid newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodir yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23, a gaiff eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf bresennol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth benderfynu ar ei raglen gyfalaf :-

- Bob blwyddyn bydd cyllid cyfalaf yn cael ei neilltuo i sicrhau y buddsoddir mewn asedau presennol i'w diogelu i'r dyfodol;
- Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn fforddiadwy;
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol;
- Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.3.** Aeth y strategaeth wedyn ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ar sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu darparu a chafodd y pwyntiau allweddol canlynol eu cynnwys:-

- Bod rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol;
- Bod amnewid asedau presennol neu asedau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes yn gostwng costau refeniw a bod swm yn cael ei neilltuo yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i wella, neu amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor;
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl a bydd cyllid yn cael ei neilltuo bob blwyddyn yn y rhaglen gyfalaf i gydymffurfio â'r gofyniad hwn;
- Bydd swm yn cael ei neilltuo bob blwyddyn i gyllido gwelliannau ffyrdd. Bydd y swm yn dibynnu ar y cyllid sydd ei angen i sicrhau unrhyw werthoedd contract gofynnol, lefel y cyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod;
- Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid allanol;
- Ni fydd prosiectau a gyllidir o fenthyca digefnogaeth ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i dalu am y costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn nodi sut y dylid sgorio unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg gorfforaethol.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2022/23

**3.1.** Mae'r cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23 i'w weld yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi bod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad Llywodraeth Leol dros dro. Ni fydd y ffigwr terfynol yn hysbys tan y cyhoeddir ffigyrau'r setliad terfynol ar 2 Mawrth 2022. Mae lefel y cyllid o dan y ddau bennawd wedi parhau yn gymharol gyson dros nifer o flynyddoedd a ni ragwelir y bydd newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf a Ragwelir a fydd ar gael ar gyfer 2022/23**

| Ffynhonnell y Cyllid | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau/Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2021/22 | 1,322 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,486 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,157 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 600 | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | 250 | |
| Balansau Cyffredinol | 1,681 | |
| Arian Wrth Gefn Gwasanaethau | 110 | |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | 835 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 138 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **8,579** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 1,168 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 5,261 | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 2,169 | |
| **Cyllid ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | **8,598** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian CRT wrth gefn | 3,080 | |
| CRT - Gwarged yn y flwyddyn | 7,019 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2,685 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,000 | |
| **Cyllid ar gyfer CRT** | | **18,784** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2022/23** | | **35,961** |

**3.2.** £3.643m ydi'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Nid oes llawer o gynnydd wedi bod yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ers nifer o flynyddoedd gan fod cyllid cyfalaf ychwanegol wedi bod ar gael ar gyfer prosiectau penodol e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif. Os bydd y lefel yma o gyllid yn parhau yn 2023/24 a thu hwnt, bydd rhaglen gyfalaf y Cyngor wedi'i chyfyngu i adnewyddu ac amnewid asedau presennol neu bydd rhaid lleihau'r dyraniadau uchod er mwyn rhyddhau cyllid i gwrdd ag ymrwymiadau eraill. Fodd bynnag, ar gyfer 2022/23, mae'r grant cyfalaf cyffredinol wedi gostwng £677k o'i gymharu â'r cyllid a dderbyniwyd yn 2021/22.

**3.3.** Mae'r potensial ar gyfer unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o unrhyw asedau sy'n weddill nad ydynt wedi'u gwerthu eisoes wedi'u clustnodi i gyllido prosiectau cyfalaf presennol neu brosiectau cyfalaf yn y dyfodol (Ysgolion yr 21ain Ganrif, gwelliannau hamdden a mân-ddaliadau).

**3.4.** Mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyllid wedi bod ar gael o gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol i gyllido prosiectau cyfalaf. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd y gronfa hon fel ffynhonnell gyllido ond mae'r balans wedi gostwng yn sylweddol a bydd y balans sy'n weddill yn cael ei gadw i gyllido unrhyw waith cyfalaf brys a allai godi yn ystod y flwyddyn neu i ddarparu cyllid cyfatebol pe bai'r cynnig o gyllid grant sylweddol yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn a oedd yn gofyn am swm bach o gyllid cyfatebol.

**3.5.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau CRT yn unig ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw brosiectau eraill. Mae'r cynllun yn caniatáu defnyddio £3.080m yn 2022/23, gan adael £1.5m fel yr arian wrth gefn parhaus. Mae hyn yn unol â Chynllun Busnes y CRT sydd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gan y Cyngor.

## 4. RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT (Cynlluniau a Ymrwymwyd)

### 4.1. Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen

Ni fydd y cynlluniau canlynol yn cael eu cwblhau yn 2021/22 a byddant yn cael eu dwyn ymlaen i 2022/23:-

**Tabl 2**
**Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen**

| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | 2022/23 £'000 |
|---|---|
| Penrhos - Cyfnod 2 | 493 |
| Porth Twristiaeth | 170 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 190 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) | 350 |
| Porth Llangefni – Menter ar y Cyd | 119 |
| **Cyfanswm y Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **1,322** |

### 4.2. Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol

**4.2.1** Bob blwyddyn, neilltuir symiau yn y rhaglen gyfalaf er mwyn cynnal, uwchraddio neu amnewid asedau presennol. Mae'r symiau a neilltuwyd wedi'u hadolygu gan y Tîm Cyllid mewn ymgynghoriad â'r gwasanaeth perthnasol ac argymhellir y symiau canlynol ar gyfer 2022/23:-

- **Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) -** Mewn blynyddoedd blaenorol neilltuwyd £750k ac ategwyd hyn yn ystod y 3 blynedd diwethaf drwy ddefnyddio grantiau'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi na fydd yn bosibl defnyddio grant y Gronfa Gofal Canolraddol i ychwanegu at y gyllideb graidd mwyach ac, o'r herwydd, bydd angen cyllideb graidd o £750k yn 2022/23 i gwrdd â'r galw am waith addasu.

- **Adnewyddu Ysgolion** – Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd angen ei wneud mewn ysgolion yn sylweddol ac ni ellir ei gyllido yn y tymor byr i'r tymor canol. Er y gall rhywfaint o hyn gael ei liniaru gan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae angen gwneud rhywfaint o waith brys ar adeiladau nad yw'r rhaglen hon yn effeithio arnynt o hyd. Mae'r Tîm Gwasanaethau Eiddo wedi nodi'r gwaith brys pennaf y dylid defnyddio'r dyraniad arferol o £1m arno. Fodd bynnag, yn ddelfrydol, mae angen i'r swm y gellir ei wario ar ysgolion gael ei wneud dros gyfnodau gwyliau er mwyn osgoi risgiau iechyd a diogelwch a tharfu ar ysgolion. Mae hyn yn golygu bod angen dechrau rhai prosiectau tymor hir nawr fel y gellir eu cwblhau cyn i risgiau difrifol godi. Mae ysgolion uwchradd yn arbennig mewn cyflwr gwael iawn ac mae angen buddsoddiad sylweddol arnynt. Fodd bynnag, mae rhai materion adeiladu yn hollbwysig ac ni allant aros am raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ddelfrydol, dylai'r Awdurdod neilltuo tua £2.5m y flwyddyn.

- **Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion –** Unwaith eto, nodwyd ôl-groniad o waith y mae angen ei wneud yn swyddfeydd y Cyngor, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac nid oes digon o gyllid i wneud y gwaith hwn mewn un flwyddyn. Neilltuwyd £600k yn y flwyddyn flaenorol a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigonol i dalu cost y rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth y mae angen ei wneud ond, yn 2022/23, mae £100k yn ychwanegol wedi'i neilltuo, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £700k.

  **Ail-wynebu Priffyrdd** - Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiwn Blynyddol yn cadarnhau bod angen cyllideb flynyddol o £2m er mwyn cynnal cyflwr Cyflwr Sefydlog (Ataliol) ein ffyrdd. Byddai cyllideb sy'n is na'r swm gofynnol hwn yn anochel yn arwain at lai o effeithlonrwydd a gwerth gorau am arian a chostau ychwanegol i'r Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o arian yn cael ei wario ar waith brys a hefyd y risg y bydd mwy o hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd parhau i fuddsoddi yn rhwydwaith ffyrdd y Cyngor, ond y mae hefyd yn cydnabod bod £2m yn gyfran sylweddol o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor ac y bydd yn anodd dyrannu'r swm yma bob blwyddyn. Cynigir defnyddio £2m o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor, yn cynnwys defnyddio £1.110m o Falansau Cyffredinol y Cyngor.

- **Cerbydau -** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel sydd yn ei feddiant. Neilltuir £200k o gronfa wrth gefn clustnodedig i gyllido prosiectau sydd wedi'u dylunio i leihau ôl-troed carbon y Cyngor. Bydd hyn yn ein galluogi i brynu cerbydau trydan. Dyrennir £100k yn ychwanegol i barhau i amnewid cerbydau graenu'r Cyngor.

  **Asedau TG –** Mae angen buddsoddiad parhaus i gynnal isadeiledd craidd y Cyngor ac i amnewid dyfeisiau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd bod angen swm o £171k i gynnal yr isadeiledd craidd, a bod angen £121k ar gyfer dyfeisiau bwrdd gwaith.

## 5. BIDIAU ERAILL AM GYLLID YCHWANEGOL

**5.1.** Gofynnwyd i'r gwasanaethau gyflwyno bidiau am gyllid cyfalaf. Aseswyd y bidiau hyn gan y Tîm Cyllid, ac yna fe'u gosodwyd yn nhrefn blaenoriaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ac eithrio'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyfanswm y cyllid craidd cyffredinol a oedd ar gael, gan gynnwys arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol, ar gyfer 2022/23 oedd £7.257m, ac mae angen £5.042m ar gyfer yr uchod, gan adael £2.215m i gyllido unrhyw brosiectau untro newydd.

**5.2.** Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r bidiau am gyllid ac argymhellir y dylid cynnwys y prosiectau canlynol yn rhaglen gyfalaf 2022/23 (gweler Tabl 3 isod):-

**Tabl 3**
**Prosiectau Cyfalaf Untro a Argymhellir eu Cyllido yn 2022/23**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm a Argymhellir £'000 |
|---|---|---|
| Prosiectau Llesiant Amgylcheddol a Datblygu Economaidd | Arian cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd cyllid grant ar gael. | 100 |
| Diweddaru Toiledau Cyhoeddus | Rhaglen waith i ddiweddaru nifer o doiledau cyhoeddus ar yr Ynys. Cyflwynir adroddiad ar y cynllun manwl i'r Pwyllgor Gwaith maes o law. £100k o'r gost i'w gyllido gydag arian wrth gefn o gronfeydd y gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff. | 480 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | Darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a hefyd darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr wedi'u blaenoriaethu er mwyn denu cyllid grant Llywodraeth Cymru (LlC). Felly, byddai grant LlC yn dod i gyfanswm o £1.592m. | 281 |
| Canopïau allanol mewn 3 Ysgol Uwchradd | Bydd y canopïau'n darparu mwy o le i blant eistedd i fwyta eu cinio. Cyllidir y prosiect o falensau cyffredinol. | 371 |
| Seilwaith Morwrol | Byddai'r cyllid yn caniatáu i waith gael ei wneud ar y pontydd cychod yn harbwr Amlwch a Phier San Siôr ym Mhorthaethwy. Cyllidir y prosiect o falensau cyffredinol. | 200 |
| **CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2022/23** | | **1,432** |

**5.3** Daw'r £0.783m sy'n weddill o gyllid o gronfeydd wrth gefn clustnodedig, cronfeydd wrth gefn gwasanaeth a benthyca digefnogaeth. Dangosir y prosiectau a argymhellir yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**

**Prosiectau i'w Cyllido o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig, Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau a Benthyca Digefnogaeth**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm a Argymhellir £'000 |
|---|---|---|
| Seilwaith Arfordirol | Bydd y cyllid yn gwella nifer o safleoedd yn cynnwys gwella llwybrau troed, sicrhau gwell mynediad, gwella llwybrau beicio a darparu pwyntiau gwefru i gerbydau trydan. Cyllidir y gost drwy'r gronfa i gyllido'r prosiectau sy'n lleihau ôl-troed carbon y Cyngor. | 200 |
| Atgyweirio Melin Llynnon | Er mai unigolyn preifat sy'n rheoli'r felin erbyn hyn, ni ellir ymrwymo i brydles tymor hir hyd nes y bydd y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau er mwyn i'r felin fod yn weithredol. Mae gan y Cyngor gronfa wedi'i chlustnodi ar gyfer y gwaith, ond bydd angen cyllid pellach o gronfa wrth gefn y Gwasanaeth Addysg a thrwy fenthyca digefnogaeth. Bydd yr incwm ychwanegol a gynhyrchir drwy'r brydles yn cyllido costau cyllido cyfalaf blynyddol y benthyca digefnogaeth. | 103 |
| Rhaglen Barhaus Uwchraddio Offer Ailgylchu | Mae angen offer newydd yng nghanolfan ailgylchu'r Cyngor a chyllidir y gost drwy gronfa ailgylchu benodol. | 380 |
| Offer Ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden David Hughes | Rhoddodd y Cyngor brosiect ar waith i ddiweddaru'r offer ffitrwydd yn ei 4 Canolfan Hamdden a dyma'r uwchraddiad terfynol. Fel yn achos yr uwchraddiadau blaenorol, cyllidir y gost drwy fenthyca digefnogaeth, a chyllidir ac y costau cyllido cyfalaf drwy'r incwm ychwanegol a gynhyrchir. Mae profiad y 3 canolfan hamdden arall yn dangos bod hwn yn opsiwn cyllido dichonadwy. | 100 |
| **CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2022/23 I'W GYLLIDO O GRONFEYDD WRTH GEFN A BENTHYCA DIGEFNOGAETH** | | **783** |

## 6. YSGOLION YR 21ain GANRIF

**6.1.** O ganlyniad i'r cyllid sylweddol y bydd y cynlluniau'n ei ddenu gan Lywodraeth Cymru a'r angen i foderneiddio'r ystad ysgolion bresennol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido'r cynlluniau hyn drwy'r defnydd o fenthyca digefnogaeth a'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu hen safleoedd ysgolion. Mae Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn golygu y gellir cwblhau prosiectau Band A (ysgol newydd Ysgol Corn Hir) a chychwyn prosiectau Band B (estyniad i Ysgol y Graig).

**6.2.** Amcangyfrifir mai cost y rhaglen yn 2022/23 yw £8.598m (yn net o unrhyw dderbyniadau cyfalaf), a fydd yn cael ei gyllido drwy grant o £2.169m gan Lywodraeth Cymru, £1.1.68m o fenthyca â chefnogaeth a £5.261m o fenthyca digefnogaeth.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1.** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn parhau i fuddsoddi yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau SATC, gyda £9.555m yn cael ei fuddsoddi. Bydd £9.229m pellach yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac mewn prynu eiddo hawl i brynu yn ôl.

**7.2.** Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£3.080m), gwarged y refeniw a grëwyd yn 2022/23 (£7.019m), grantiau Llywodraeth Cymru (£2.685m) a benthyca digefnogaeth newydd (£6.000m).

**7.3.** Nodir manylion y rhaglen buddsoddiadau tymor hir, a'r modd y caiff ei gyllido dros y 30 mlynedd nesaf, yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 8. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF A ARGYMHELLIR 2022/23

**8.1.** Ceir crynodeb o'r rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2022/23 yn Nhabl 6 isod a cheir dadansoddiad manylach yn Atodiad 2.

**Tabl 6**

**Crynodeb o'r Rhaglen Cyfalaf a Argymhellir 2022/23**

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 1,322 |
| Adnewyddu/Amnewid Asedau | Para 4.2. | 5,042 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd | Para 5.2 a Thabl 3 | 1,432 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (I'w cyllido drwy Gronfeydd Wrth Gefn a Benthyca Digymorth) | Para 5.3 a Thabl 4 | 783 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif | Para 6 | 8,598 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 18,784 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2022/23** | | **35,961** |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 1,486 |
| Benthyca â Chymorth Cyffredinol | | 2,157 |
| Balansau Cyffredinol | | 1,681 |
| Benthyca â Chymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 1,168 |
| Benthyca Digymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 5,261 |
| Arian HRA Wrth Gefn a'r Gwarged yn ystod y flwyddyn | | 10,099 |
| Benthyca Digymorth HRA | | 6,000 |
| Derbynebau Cyfalaf | | 600 |
| Grantiau Allanol | | 4,854 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | | 1,195 |
| Benthyca Digymorth Cronfa Gyffredinol | | 138 |
| Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | | 1,322 |
| **2022/23 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **35,961** |

**ATODIAD 2**

# CYLLIDEB CYFALAF ARFAETHEDIG 2022/23

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Arian Wrth Gefn Glustnodedig £'000 | Balansau Cyffredinol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen** | | | | | | | | | |
| Penrhos Cyfnod 2 | 493 | 493 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Porth Llangefni – Menter ar y Cyd | 119 | 119 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 170 | 170 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 190 | 190 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II FTT) | 350 | 350 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen** | **1,322** | **1,322** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | | | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 750 | 0 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiladau Heblaw Ysgolion | 700 | 0 | 450 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 | 0 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 2,000 | 0 | 14 | 876 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,110 |
| Cerbydau | 300 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | 0 |
| Asedau T.G. | 292 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 292 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | **5,042** | **0** | **1,314** | **1,876** | **0** | **0** | **292** | **450** | **1,110** |
| | | | | | | | | | |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | | | | | | | | | |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | 281 | 0 | 0 | 281 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd – Arian Cyfatebol | 100 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 480 | 0 | 72 | 0 | 0 | 0 | 308 | 100 | 0 |
| Canopïau allanol mewn 3 Ysgol Uwchradd | 371 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 371 |
| Seilwaith Morwrol | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | **1,432** | **0** | **172** | **281** | **0** | **0** | **308** | **100** | **571** |

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Arian Wrth Gefn Glustnodedig £'000 | Balansau Cyffredinol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Eraill (Ariennir gan Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig, Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau & Benthyca Digefnogaeth)** | | | | | | | | | |
| Seilwaith Arfordirol | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | 0 |
| Atgyweirio Melin Llynnon | 103 | 0 | 0 | 0 | 38 | 0 | 0 | 65 | 0 |
| Uwchraddio Offer Ailgylchu Gwastraff | 380 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 380 | 0 |
| Offer Ffitrwydd – Canolfan David Hughes | 100 | 0 | 0 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Eraill** | **783** | **0** | **0** | **0** | **138** | **0** | **0** | **645** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | | | | | | | | |
| Band A | 3,768 | 0 | 0 | 0 | 3,768 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Band B | 4,830 | 2,169 | 0 | 1,168 | 1,493 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **8,598** | **2,169** | **0** | **1,168** | **5,261** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM GRONFA CYFFREDINOL** | **17,177** | **3,491** | **1,486** | **3,325** | **5,399** | **0** | **600** | **1,195** | **1,681** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig SATC | 9,555 | 2,685 | 0 | 0 | 0 | 6,870 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygiadau Newydd ac Ail-Brynu Eiddo Hawl i Brynu | 9,229 | 0 | 0 | 0 | 6,000 | 3,229 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **18,784** | **2,685** | **0** | **0** | **6,000** | **10,099** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2022/23** | **35,961** | **6,176** | **1,486** | **3,325** | **11,399** | **10,099** | **600** | **1,195** | **1,681** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **24 Ionawr,2022** |
| Pwnc / Testun: | **Ymateb i'r Her Dai Lleol - Polisi Rhannu Ecwiti** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cyng A Mummery** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Ned Michael** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Elliw Llŷr, Rheolwr Polisi, Comisiynu a Strategaeth<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | |

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**A1 Argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Polisi Rhannu Ecwiti**

1. **Cefndir**

Fel rhan o'r amrywiaeth o fentrau i gynnig tai fforddiadwy, mae Gwasanaethau Tai yn bwriadu cyflwyno Polisi Rhannu Ecwiti fydd yn cynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gallu prynu eu cartref ar y farchnad agored a'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i Dai Cymdeithasol. Mae prynu cartref yn parhau tu allan afael lawer o brynwyr tro cyntaf oherwydd prisiau eiddo uchel o'i gymharu ag incwm lleol a'r blaendal sydd eu hangen.


Mae'r Polisi Rhannu Ecwiti yn helpu i gyflawni dau amcan a nodwyd yn ein Strategaeth Dai sef:
**Thema 1 – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol**
**Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol a gwella cartrefi a chymunedau**

Gyda gweithred y byddwn yn '**cynnig eiddo rhent cymdeithasol, rhenti canolradd, hunan adeiladu a chymorth i brynwyr tro cyntaf'.**


Mae gwybodaeth ddiweddar wedi tynnu sylw at y ffaith bod y diffyg cartrefi fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol eu prynu wedi'i gysylltu â phobl sydd bellach yn gallu gweithio gartref ac felly'n ail/leoli i Ynys Môn ynghyd â chynnydd mewn ail gartrefi a'r farchnad gwyliau fel Air b&b. Nododd adroddiad diweddar gan Wasanaeth Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn:

Y pris cyfartalog ar gyfer tŷ yn Ynys Môn yw £170,000 a gydag incwm cyfartalog yn £27,445 mae'r gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 6:2:1 gan olygu fod

62.2% o bobl leol wedi prisio allan o'r farchnad. Mae'r ystadegau yn llawer iawn uwch yn yr ardaloedd hynny sydd hefo cyfraddau uwch o ail-gartrefi. Yn Rhosneigr ble fo 35.12% o'r tai yn yr ardal cyngor cymuned yn gartrefi gwyliau, y pris tai cyfartalog yw £263,00. Gydag incwm cyfartalog aelwydydd yn £31,596 golygai fod y gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 8:3:1.Mae'r map isod yn dangos canran yr aelwydydd sydd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai fesul Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Môn.



Dengys y map isod ddosraniad cartrefi gwyliau ledled Môn:




**Arolwg o Anghenion Tai**
Cafodd arolwg o anghenion tai ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor am gyfnod o 6 wythnos, gan ddod i ben ar 21 Rhagfyr 2021, er mwyn dod o hyd i anghenion llety'r bobl sy'n byw ar yr Ynys.

Derbyniwyd 66 o ymatebion gyda 57 o ymatebwyr yn chwilio am gartref ar yr Ynys ar hyn o bryd.

Roedd 69% (44) o'r ymatebwyr a oedd yn chwilio am gartref eisiau prynu eiddo, gydag 11 o'r rhain yn edrych i brynu eiddo drwy Gynllun Rhannu Ecwiti. Atebion cyffredin i'r cwestiwn "*Yn eich barn chi, a oes unrhyw beth yn eich atal rhag dod o hyd i gartref addas?*" oedd bod prisiau tai marchnad agored yn rhy uchel o'u cymharu â chyflogau lleol ac effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar y farchnad dai lleol.

**Cofrestr Tai Fforddiadwy**
Ym mis Rhagfyr 2021 roedd 458 o ymgeiswyr wedi cofrestru ar gyfer eiddo fforddiadwy ar wefan Tai Teg, gyda 260 o'r ymgeiswyr hyn yn bwriadu prynu eiddo fforddiadwy ar Ynys Môn.

**Gweithredu'r Polisi Rhannu Ecwiti**

Mae'r Polisi yn nodi pa fath o eiddo fydd yn gymwys i gael cyllid a chyfrifoldebau'r Prynwr a'r Cyngor o fewn y Polisi. Rhoddir blaenoriaeth i unigolion sydd â chysylltiad o 5 mlynedd neu fwy ag Ardal Cyngor Cymuned.

Fel aelod o Bartneriaeth Tai Teg, bydd y Cyngor yn defnyddio prosesau gweinyddu Tai Teg sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan Gynghorau a Chymdeithasau Tai eraill ledled Gogledd Cymru i weinyddu'r Polisi Ecwiti a Rennir. Mae’r prosesau gweinyddu yn cynnwys y broses o hyrwyddo ac asesu darpar ymgeiswyr yn unol â’r Polisi hwn.

Mae Tai Teg yn rhoi gwahanol opsiynau ynglŷn ag unedau fforddiadwy sydd ar gael, boed yn eiddo i’w rhentu (rhent canolraddol) neu eiddo i’w prynu sydd yn fwy fforddiadwy nag eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored. Mae’r safle we yn darparu’r wybodaeth am y cynlluniau sydd ar gael a’r meini prawf sydd rhaid eu cyrraedd er mwyn i chi gael eich cymeradwyo a’ch rhoi ar y gofrestr.

Disgwylir y bydd cyllideb flynyddol yn cael ei phennu ar gyfer gweithredu'r polisi a gaiff ei ariannu drwy Gronfa Gyffredinol y Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Mewn egwyddor, disgwylir y bydd eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored lle cynigir Rhannu Ecwiti i gynorthwyo gyda'r pryniant yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Gyffredinol a bydd eiddo Adeilad Newydd yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae ein Cynlluniau Cartrefi Gwag yn cynorthwyo aelwydydd lleol i gael mynediad i dai fforddiadwy i'w prynu, bydd y Polisi hwn yn ehangu'r ystod o dai fforddiadwy y gallwn eu cynnig ar gyfer eiddo presennol a rhai a gaiff eu hadeiladau gan y Cyngor. Byddai'r opsiwn i beidio â chynnig Rhannu Ecwiti yn cyfyngu ar ein cynnig i allu cynorthwyo aelwydydd lleol.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?

Mae hwn yn Bolisi newydd a gaiff ei ariannu drwy'r Premiwm Treth Gyngor Ail Gartrefi a bydd Adeilad Newydd y Cyngor yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

## Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Gweithredir y Polisi hwn unwaith y daw penderfyniad terfynol i law ar y Gyllideb ar gyfer 2022-23 a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith (24 Ionawr,2022) |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae pobl sydd â chysylltiad lleol â'u cymunedau yn methu fforddio prynu cartref ar hyn o bryd. Mae'r Polisi hwn yn cynorthwyo pobl i allu aros o fewn eu cymunedau lleol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Mae yn cynnig cyfleoedd i bobl gael mynediad i dai o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae arolwg diweddar o anghenion tai yn dangos bod 69% (44)o'r ymatebwyr yn chwilio am gartref i'w brynu, gydag 11 o'r rhain yn bwriadu prynu eiddo drwy Gynllun Rhannu Ecwiti.<br><br>Defnyddiwyd y wybodaeth a'r ymatebion o'n hymgynghoriad Strategaeth Dai 2022-27 i ddatblygu'r Polisi hwn |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Dim wedi ei adnabod, gweler Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Pobl sydd â chysylltiad lleol â'u cymunedau ac sy'n methu fforddio prynu cartref ar hyn o bryd. Mae'r Polisi hwn yn cynorthwyo pobl i allu aros o fewn eu cymunedau lleol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â | Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol. Gweler Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg |

| | | |
|---|---|---|
| | thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Dd/b |
| 5 | Eiddo | Dd/b |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Dd/b |
| 7 | Caffael | Dd/b |
| 8 | Sgriwtini | Dd/b |
| 9 | Aelodau Lleol | Dd/b |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Polisi Rhannu Ecwiti<br>Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>Asesiad Effaith Iaith Gymraeg |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Polisi Rhannu Ecwiti
## Drafft v0. 2

**Hanes adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 0.1 | Medi 2021 | Gwnaed yn dilyn trafodaethau cychwynnol ar bolisi |
| 0.2 | Hydref 2021 | |
| | | |
| | | |

| Dyddiad adolygu nesaf | |
|---|---|
| Bydd y polisi'n cael ei adolygu ar: | Hydref 2022 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Tîm Strategaeth Tai, Polisi a Chomisiynu |

**Manylion cyswllt:**


Gwasanaethau Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

01248 752200

adrantai@ynysmon.gov.uk


Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais - defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg.

**TABL CYNNWYS**


1. **Nodau a phwrpas y polisi**
2. **Cefndir**
3. **Dyletswyddau a Chyfrifoldebau**
4. **Manylion y Polisi**
5. **Cynllun Cyfathrebu**
6. **Diffiniadau**

**Atodiadau**

1. **Enghreifftiau o sut mae'r cynllun yn gweithio**

## 1. Nodau a phwrpas y polisi

Pwrpas y Polisi hwn yw cyflwyno Cynllun Rhannu Ecwiti ar gyfer y mathau canlynol o eiddo:-

a) Eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored
b) Eiddo y mae'r Cyngor yn nodi eu bod ar gael ar sail Rhannu Ecwiti a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, Premiwm Treth y Cyngor neu o Rwymedigaethau Cynllunio

Mae'r Polisi yn cynnig cyfle i Brynwyr Tro Cyntaf (BTC) gael benthyciad ecwiti i'w galluogi i brynu cartref addas yn eu hardal leol na fyddent fel arall yn gallu ei fforddio. Nod y cynllun yw helpu aelwydydd incwm isel na fyddent fel arall yn gallu prynu cartref.

Bydd y Cyngor yn cymryd cyfran ecwiti hyd at 30% o'r pris prynu mewn eiddo fel y disgrifir yn a) a b) uchod (gyda disgresiwn i gynyddu hyn hyd at 50% mewn amgylchiadau eithriadol). Bydd uchafswm y pris prynu ar gyfer ymgeiswyr yn cael ei gapio ar £250,000. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i BTC roi blaendal llai (lleiafswm o 5% o'r pris prynu) a morgais, gan ei wneud yn llwybr mwy fforddiadwy i fod yn berchen ar gartref.

Mae Strategaeth Tai 2022-27, o dan **Thema 2** – **Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol a gwella cartrefi a chymunedau,** yn datgan y byddwn yn cynnig cyngor, grantiau a benthyciadau i ailddefnyddio cartrefi gwag, mae hyn yn cynnwys cynnig rhannu ecwiti a chymorth i brynwyr tro cyntaf drwy ddefnyddio Treth Premiwm y Cyngor i ariannu'r mentrau hyn.

Mae'r Prosbectws Tai yn dangos bod 190 o'r ymgeiswyr hynny sydd wedi cofrestru ar Dai Teg yn dymuno prynu eu cartref. Mae'r Prospectus yn cynnwys gwybodaeth ar lefel Cyngor Cymuned, gellir defnyddio'r wybodaeth hon wrth gymharu allbynnau'r polisi hwn a'r angen a nodwyd wrth adolygu ei weithredu.

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn datblygu ac yn caffael eiddo ar sail rhannu ecwiti i ddiwallu'r angen am dai yn yr ardal ac mae'n seiliedig ar arfer gorau.

## 2. Cefndir

Mae cynigion rhanberchnogaeth a rhannu ecwiti wedi bod yn rhan o bolisi tai'r DU ers o leiaf dri degawd. Fe'u datblygwyd yn wreiddiol i fynd i'r afael â phroblemau fforddiadwyedd yn y 1970au pan oedd chwyddiant yn gyflym iawn a phobl a allai fforddio prynu dros eu hoes waith yn hawdd wedi eu cau allan/heithrio gan ad-daliadau morgais uchel ym mlynyddoedd cynnar morgais traddodiadol oherwydd cyfraddau llog uchel.

Yn ddiweddarach, daethant yn un o nifer o fentrau perchentyaeth cost isel gyda'r nod o ymestyn perchnogaeth cartref, yn seiliedig ar ddisgwyliadau y byddai incwm aelwydydd yn cynyddu fel y gallent symud i brynu 100 y cant o fewn amser rhesymol *(Allen, P.,1982; Booth a Crook, 1986*). Yn fwy diweddar, defnyddiwyd cynigion rhanberchnogaeth a rhannu ecwiti fel ffordd o ddarparu cymhorthdal isel i gynyddu cyfraddau perchentyaeth drwy alluogi prynwyr ar yr ymylon i brynu wrth i brisiau tai godi'n gyflymach nag incwm a mwy o aelwydydd gael trafferth fforddio tŷ *(NAO, 2006*).

Er bod llawer o fersiynau gwahanol wedi bod dros y blynyddoedd, mae polisi llywodraeth ganolog wedi canolbwyntio ar ddau fodel craidd:

- **rhanberchnogaeth** lle mae'r prynwr yn prynu cyfran o'r eiddo gyda morgais traddodiadol, tra bod y gyfran arall yn eiddo i landlord cymdeithasol sy'n cael rhent ar yr elfen hon;
- **rhannu ecwiti** lle mae'r prynwr yn prynu 100 y cant o'r eiddo ond yn cael benthyciad ecwiti i dalu rhan o'r gwerth.

**Cyfraddau llog**
Dim ond ar y gyfran y maent yn ei phrynu y mae gan brynwyr sy'n defnyddio naill ai rhanberchnogaeth neu gynllun rhannu ecwiti forgais traddodiadol, felly mae effaith newidiadau mewn cyfraddau llog yn llai. Yn hytrach, mae prynwyr rhanberchnogaeth yn talu rhent sy'n ymwneud â gwerth cyfalaf. Gall prynwyr cynllun rhannu ecwiti, mewn rhai amgylchiadau, dalu tâl ond nid yw hyn yn amrywio ar sail cyfraddau llog y farchnad. Daw cost y gostyngiad hwn mewn gwariant ar sail colli enillion cyfalaf ond gall y pris ar adeg prynu cyfran yn y dyfodol fod yn uchel neu'n isel yn dibynnu ar y farchnad. Mae'r amrywiadau hyn yn gysylltiedig â gwerthoedd ecwiti yn hytrach na chyfraddau llog. Felly mae rhanberchnogaeth a rhannu ecwiti yn lleihau'r risg o newidiadau i'r gyfradd llog drwy leihau maint y morgais traddodiadol. Mae'r cyfanswm a ad-delir yn gysylltiedig â gwerth yr eiddo ar y pryd, ac nid y swm a fenthycwyd yn wreiddiol.

*(Shared ownership and shared equity: reducing the risks of home-ownership, JRF 2010)*


Amlygodd papur ymchwil Tŷ'r Cyffredin - Papur Briffio Cydberchnogaeth - *Shared ownership (England): the fourth tenure* 2020 - y gall mentrau o'r fath fod yn:

**Gymhleth** - mae rhanberchnogaeth yn ddeiliadaeth hybrid gymhleth, a all fod yn anodd i ddarpar brynwyr, darparwyr a benthycwyr ei deall. Mae hyn yn cael ei gymhlethu fwy fyth gan amrywiadau mewn enwau cynigion a ddefnyddir gan wahanol ddarparwyr a'r gwahanol ofynion cymhwysedd ychwanegol ar draws gwahanol ardaloedd.
**Ymateb i broblemau o ran argaeledd** - mewn marchnad dai sy'n codi, mae'n mynd yn ddrutach i brynu cyfranddaliadau pellach yn yr eiddo ac mae'r hyn y cyfeirir ato fel '*staircasing*' yn golygu costau ychwanegol i'r cydberchennog, gan gynnwys ffioedd prisio, cyfreithiol a morgeisi. Mae costau cynyddol rhanberchnogaeth wedi ei gwneud yn fwy heriol i aelwydydd symud ymlaen i berchnogaeth lawn. Aeth tua 4,000 o aelwydydd ymlaen i berchnogaeth 100% yn 2018/19, sy'n cyfateb i 2.3% o'r holl gartrefi ar sail rhannu ecwiti sy'n eiddo i gymdeithasau tai.
**Morgeisi ar gael** – ystyrir bod argaeledd morgeisi cyfyngedig a chyfraddau llog llai ffafriol ar forgeisi rhanberchnogaeth yn ffactor sy'n cyfyngu ar y nifer sy'n manteisio ar gydberchnogaeth.
**Galw cyfyngedig mewn rhai ardaloedd** – mae'r galw am gydberchnogaeth yn amrywio o amgylch y wlad, yn ogystal â hyfywedd ariannol datblygu. Mae'r galw mwyaf lle mae fforddiadwyedd fwyaf anodd – yn ne Lloegr yn bennaf. Mewn rhai ardaloedd mae cynllun Cymorth i Brynu: Benthyciad Ecwiti'r Llywodraeth yn fwy deniadol yn ariannol i brynwyr tro cyntaf.
**Ailwerthu –** nid yw'r broses ar gyfer gwerthu eiddo rhanberchnogaeth yn syml. At hynny, mae'r farchnad eilradd yn fach a all ei gwneud yn anodd paru prynwyr a gwerthwyr neu symud o fewn y ddeiliadaeth.

Er bod yr uchod yn cyfeirio at gynlluniau Rhanberchnogaeth, gallai'r rhain fod yn ffactorau macro sy'n dylanwadu ar weithredu'r polisi hwn ac yn llywio'r gwaith o'i adolygu dros amser.

Mae Papur Briffio'r Hydref Adolygiad Tai CIH y DU, 2021 yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai prynwyr tro cyntaf o dan anfantais a bod anghydraddoldeb yn cael ei lywio gan y farchnad dai. Mae hefyd yn nodi y bydd y perygl o wynebu dyledion yn tyfu os bydd prynwyr tro cyntaf yn ymestyn eu sefyllfa ariannol i fynd ar yr ysgol dai ac yna'n wynebu cyfraddau morgais uwch ac enillion cyfalaf cyfyngedig dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd yn swm y blaendal sy'n ofynnol gan brynwyr tro cyntaf yn ystod argyfwng Covid:




Source: Author estimates based on ONS House price data: quarterly tables, Table 15.

Mae'r Adolygiad yn nodi bod 'Covid wedi amharu ar batrymau ymddygiad cartrefi, yn barhaol efallai, gyda chanlyniadau gwirioneddol i'r farchnad dai. Mae'r cyfyngiadau symud a mwy o gyfleoedd i weithio'n hyblyg wedi sbarduno galw mawr am le ychwanegol, cynnydd enfawr mewn lefelau gweithgarwch a phwysau anochel ar brisiau. Ar ben hyn cyflwynwyd gwyliau treth stamp yn 2020 – ymateb i wleidyddiaeth perchentyaeth ochr yn ochr â'r awydd i ysgogi'r economi ehangach – gan roi hwb arbennig i berchnogion presennol a buddsoddwyr (ar draws llawer o'r DU)'.

### 3. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Mae'r cynllun yn ddewisol ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

#### 3.1 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau'r Cyngor

Ariennir y fenter hon o'r Cyfrif Refeniw Tai , Premiwm Treth y Cyngor a/neu Rwymedigaethau Cynllunio gydag uchafswm cyfran ecwiti a roddwyd gan y Cyngor o £75,000 gyda phris prynu wedi'i gapio ar gyfer ymgeiswyr am £250,000. Mae'r swm yn dibynnu ar bris cartrefi yn yr ardal lle mae angen i brynu'r cartref a modd ariannol yr aelwyd.

**3.1.1** Bydd ymgeiswyr yn cael blaenoriaeth yn seiliedig ar ddyddiad cymeradwyo.

**3.1.2** Ni fydd y Cyngor na Tai Teg yn rhoi cyngor ariannol i ymgeiswyr a bydd unrhyw ganllawiau a roddir yn cael eu cyfyngu i wybodaeth ffeithiol yn unig. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i geisio cyngor ariannol annibynnol gan gynghorydd sydd â dealltwriaeth o ranberchnogaeth a gofynion benthycwyr cysylltiedig.

**3.1.3** Uchafswm y cymorth a ddarperir gan y Cyngor yw £75,000 oni chytunir fel arall, uchafswm y cymorth benthyciad fydd 30% o werth yr eiddo cymwys.

**3.1.4** Sicrheir y benthyciad ecwiti drwy ail arwystl cyfreithiol ar yr eiddo, ar ôl y morgais cyntaf a godir.

**3.1.5** Gallai'r Cyngor gael cynnydd yng ngwerth cyfranddaliadau ecwiti'r eiddo yn ogystal â gwerth am lai na'r gyfran ecwiti wreiddiol pan werthir yr eiddo.

**3.1.6** Bydd y Cyngor yn codi ffi weinyddol am amser swyddog a dreulir ar dasgau gweinyddol sy'n ymwneud â'r eiddo.

#### 3.2 Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Perchennog

**3.2.1 Ail-werthu**

Mae'n ofynnol i'r Perchennog hysbysu'r Cyngor o'u bwriad i werthu'r eiddo. Pan dderbynnir hysbysiad o'r fath, bydd y Cyngor yn penodi syrfëwr cymwys RICS annibynnol o fewn 14 diwrnod i ganfod gwerth presennol yr eiddo ar y farchnad. Bydd y gost yn cael ei hailgodi ar y Perchennog.

Mae gan y Cyngor 8 wythnos ar ôl derbyn hysbysiad bod y Perchennog yn dymuno gwerthu ei eiddo i gytuno i brynu'r eiddo ar Werth y Farchnad Agored. Os nad yw'r Cyngor yn gallu cytuno i brynu'r eiddo, mae gan y Perchennog hawl i hysbysebu'r eiddo ar y farchnad agored ac ad-dalu ecwiti'r Cyngor yn seiliedig ar y prisiad neu bris gwerthu, pa un bynnag yw'r uchaf.

**3.2.2** Bydd symiau sy'n ad-daladwy i'r Cyngor yn cael eu hailgylchu i'w defnyddio yn y dyfodol wedi'i hwyluso gan y Polisi hwn

**3.2.3** ***Staircasing***

Ystyr y term Saesneg staircasing yw bod perchnogion yn gallu cynyddu cyfran y berchentyaeth ar unrhyw adeg. Mae'r pris a delir am unrhyw gynnydd o ran cyfran yn seiliedig ar werth llawn yr eiddo ar y farchnad agored ar yr adeg i gynyddu cyfran y berchentyaeth y fel y'i haseswyd gan syrfëwr cymwysedig RICS.
Pan fydd y Cyngor yn cael gwybod am fwriad y Perchennog i gynyddu cyfran y berchentyaeth , penodir syrfëwr annibynnol o fewn 14 diwrnod. Bydd y gost yn cael ei hail-godi ar y Perchennog. Bydd prisiad yn ddilys am dri mis o'r dyddiad a dderbyniwyd gan y Cyngor. Disgwylir y bydd y Perchnogion yn cwblhau eu pryniant i gynyddu cyfran y berchentyaeth o fewn y cyfnod hwnnw, fodd bynnag, os bu oedi y tu hwnt i reolaeth y Perchennog, gall y Cyngor

ganiatáu i hyn gael ei ymestyn i chwe mis. Bydd y Perchennog yn gallu cynyddu cyfran y berchentyaeth hyd at 90%o werth yr eiddo.

**3.2.4 *Staircasing ar i lawr***
Mae *staircasing* ar i lawr yn golygu ail-brynu rhywfaint o'r ecwiti gan y Perchennog. Bydd cost syrfewyr annibynnol, fel y'u penodir gan y Cyngor, yn cael eu hailgodi ar y Perchennog. Yn dilyn hyn, bydd y Perchennog yn parhau i fyw yn yr eiddo ond yn berchen ar gyfran lai. Mae *staircasing* ar i lawr yn ôl disgresiwn y Cyngor fel y darparwr a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff ei ystyried. Gallai fod oherwydd bod y Perchennog mewn perygl o adfeddiannu neu fynd i ôl-ddyledion ac na ellir dod o hyd i ateb arall. Ni fydd y Cyngor yn cytuno i fod yn berchen ar fwy na 50% o'r gyfran ecwiti

### 3.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r Cymhwyster Asesu isod (4) yn ogystal â'r gofynion canlynol:

**3.3.1** Bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau morgais ad-dalu drwy gydol y benthyciad morgais.
**3.3.2** Bydd aelwydydd yn symud i'r cartref ac yn ei ddefnyddio fel eu prif gartref. Nid ystyrir bod pobl sy'n byw mewn llety gwyliau neu lety dros dro arall (er enghraifft, ysbyty neu lety fyfyrwyr) yn byw yno fel arfer oni bai eu bod yn gallu dangos mai hwn fu eu hunig gartref neu eu prif gartref am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf. Fel arfer, nid yw byw fel arfer yn cynnwys pobl sy'n cael eu cadw mewn carchar neu mewn hostel mechnïaeth.
**3.3.3** Mae'r Perchennog yn gyfrifol am gynnal a chadw'r eiddo.
**3.3.4** Ni ddylid trefnu unrhyw fenthyciadau yn erbyn yr eiddo gan y Perchennog heb ganiatâd y Cyngor ymlaen llaw.
**3.3.5 Yswiriant Adeiladau**
Cyfrifoldeb y Perchennog yn unig yw cael a sicrhau yswiriant adeiladau a chynnwys ar gyfer yr eiddo. Bydd y Cyngor yn gofyn am gopi o'r dogfennau polisi yswiriant adeiladau neu unrhyw yswiriant arall sy'n ymwneud â'r eiddo drwy roi 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig.
**3.3.6 Ar ôl Gwerthu**
Bydd perchnogion yn gyfrifol am dalu ffioedd sy'n gysylltiedig â chofrestru i bwrpas y Gofrestrfa Tir, talu treth stamp, treth tir a ffioedd cyfreithiol.
**3.3.7 Isosod**
Mae'r polisi hwn yn gwahardd isosod. Diben hyn yw diogelu arian cyhoeddus rhag cael eu camddefnyddio a sicrhau nad yw ymgeiswyr yn ymrwymo i rannu ecwiti er budd ariannol (ar wahân i greu ecwiti). Bydd ceisiadau i isosod fel arfer yn cael eu gwrthod gan y Cyngor. Mewn amgylchiadau eraill, gall y Cyngor roi caniatâd i gydberchennog isosod. Ym mhob achos, rhaid bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ysgrifenedig unrhyw achos o is-osod neu letywyr.
**3.3.8** Gallai'r Perchennog gael cynnydd yng ngwerth gwerth cyfranddaliadau ecwiti'r eiddo yn ogystal â gwerth am lai na'r gyfran ecwiti wreiddiol pan werthir yr eiddo.

## 4. Manylion y Polisi

### 4.1 Asesu Cymhwysedd

Nod rhannu ecwiti yw helpu pobl y mae arnynt angen tai ond sy'n methu â phrynu cartref ar y farchnad agored heb gymorth.

**4.2.1** Rhaid i bob darpar brynwr gael eu cofrestru a'u cymeradwyo gan Tai Teg. Nid oes cost i'r ymgeisydd ar gyfer cofrestru ond mae'r asesiad ar gyfer eiddo o dan y cynllun hwn yn ddarostyngedig i ffi. Bydd yr asesiad yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno dogfennau perthnasol e.e. slipiau cyflog, cyfriflenni banc, cyfriflen cynilion. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn sicrhau bod y person(au) yn gallu cael morgais ond nad yw'r swm sydd ar gael drwy'r dulliau hyn a thrwy gynilion yn ddigon i fforddio prynu cartref yn llwyr sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion.

**4.2.2** Rhaid i'r ymgeisydd fod yn brynwr tro cyntaf neu wedi bod yn berchen ar eiddo o'r blaen ond nad yw'n berchennog tŷ ar hyn o bryd. Caiff perchnogion ar gynlluniau rhannu ecwiti presennol hefyd wneud cais am gymorth.

**4.2.3** Mae uchafswm y pris prynu wedi'i gapio ar £250,000 ar gyfer ymgeiswyr.

**4.2.4** Mae angen i'r aelwyd allu codi isafswm blaendal o 5% ar gyfran y cartref, y byddant yn berchen arno ac i allu cael morgais ar y gyfran y byddant yn ei phrynu.

**4.2.5** Bydd yr ymgeisydd yn cael blaenoriaeth fel y disgrifir isod:

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | Ymgeiswyr sydd wedi byw am 5 mlynedd neu fwy yn ardal y Cyngor Cymuned lle mae'r eiddo wedi'i leoli. |
| Blaenoriaeth 2 | Ymgeiswyr sydd wedi byw am 5 mlynedd neu fwy yn un o ardaloedd y Cyngor Cymuned sy'n ffinio ag ardal y Cyngor Cymuned lle mae'r eiddo wedi'i leoli. |
| Blaenoriaeth 3 | Ymgeiswyr sydd wedi byw neu weithio yn Ynys Môn am gyfnod o 5 mlynedd. |

A bod amgylchiadau'r ymgeiswyr yn

- sefydlog a byddai'n eu galluogi i wneud taliadau morgais a'u cynnal, a thalu blaendal

**Ond**

- na allant fforddio prynu ar y farchnad agored heb gymorth

## 5. Cynllun Cyfathrebu

Bydd y Cyngor yn defnyddio nifer o ddulliau o hysbysebu eiddo Rhannu Ecwiti ar draws yr Ynys. Bydd hyn yn cynnwys hysbysebu cartrefi Rhannu Ecwiti Newydd cyn iddynt gael eu cwblhau drwy Tai Teg a thrwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Mae graddau'r marchnata'n cael ei benderfynu ar sail safle ar gyfer cynlluniau adeiladu newydd.

Bydd eiddo a ailwerthir yn cael ei hysbysebu drwy Tai Teg.

## 6. Diffiniadau i bwrpas y Polisi hwn

| | |
|---|---|
| **Rhwymedigaethau Cynllunio** | Fel y'i diffinnir o dan y Canllawiau Cynllunio Atodol, Medi 2019 |
| **Prynwyr Tro Cyntaf** | Prynwr tro cyntaf neu efallai ei fod wedi bod yn berchen ar eiddo o'r blaen ond nad yw'n berchennog tŷ ar hyn o bryd |
| **Amgylchiadau eithriadol** | Mae angen meddygol i brynu eiddo sydd wedi'i addasu neu y gellir ei addasu |
| **Y Perchennog** | Meddiannydd yr eiddo sy'n berchen ar ran o'r eiddo gyda'r Cyngor |
| **Y Cyngor** | Cyngor Sir Ynys Môn sydd ag ail arwystl ar yr eiddo |
| **Tai Teg** | Mae Tai Teg yn rhoi gwahanol opsiynau ynglŷn ag unedau fforddiadwy sydd ar gael, boed yn eiddo i'w rhentu (rhent canolraddol) neu eiddo i'w prynu sydd yn fwy fforddiadwy nag eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored.Mae'r safle we yn darparu'r gwybodaeth am y gynlluniau sydd ar gael a'r meini prawf sydd rhaid eu cyrraedd er mwyn i chi gael eich cymeradwyo a'ch rhoi ar y gofrestr. |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | Cofnod o'r holl wariant refeniw ac incwm sy'n ymwneud â darparu tai cyngor a gwasanaethau cysylltiedig. |
| **Gwerth y Farchnad** | Y pris a geid am yr eiddo pe bai'n cael ei werthu ar y farchnad agored gan brynwr/gwerthwr parod |
| **Ffi Weinyddol** | Bydd ffi o £500 yn daladwy |
| **Ail-werthu** | Y broses lle mae'r Perchennog yn gwerthu'r eiddo i rywun arall |
| ***Staircasing*** | Y broses o gaffael cyfranddaliadau ychwanegol gan y Cyngor |
| ***Staircasing* ar i lawr** | Y Cyngor yn ail-brynu rhywfaint o'r ecwiti gan y Perchennog presennol |

### *Atodiad 1* Enghreifftiau o sut mae'r cynllun yn gweithio

Pris tai a nodwyd gan yr aelwyd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion = £120,000

- Incwm blynyddol y cartref = £23,000
- Morgais @ 3.5 gwaith incwm = £80,500
- Ynghyd â blaendal o 5% = £6,000
- Diffyg = £120,000 llai £84,500 = £35,500 neu 30% o werth yr eiddo.

**Sut mae'r benthyciad yn Gweithio**

Telir y diffyg rhwng y swm sy'n fforddiadwy i'r ymgeisydd a phris yr eiddo gan y Cyngor gyda'r swm yn cael ei gyfrifo fel canran o werth presennol yr eiddo. Os gwerthir yr eiddo yn y dyfodol, yna'r ganran hon o werth y farchnad, ar yr adeg y gwerthir yr eiddo, sy'n ad-daladwy i'r Cyngor ac yn cael ei "ailgylchu" i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae gan yr aelwyd gyfrifoldebau perchnogaeth cartref llawn ar gyfer yr eiddo sy'n cynnwys gwaith cynnal a chadw llawn ond nid yw'n talu unrhyw log ar y benthyciad a roddwyd gan y Cyngor. Os bydd gwerth yr eiddo yn lleihau'r swm sy'n ad-daladwy i'r Cyngor, bydd yn seiliedig ar werth yr eiddo yn y dyfodol fel y dangosir yn Enghraifft a).

Os bydd gwerth yr eiddo'n cynyddu bydd y swm sy'n ad-daladwy i'r Cyngor yn seiliedig ar werth yr eiddo yn y dyfodol fel y dangosir yn Enghraifft b).

**Enghraifft a**

Mae cwpl yn defnyddio'r cynllun i brynu eiddo 2 ystafell wely yn 2020 am £ 120,000. Mae'r cwpl yn darparu blaendal o 5% o'r pris prynu (£ 6000) ac mae 30% o'r pris prynu yn cael ei ariannu gan fenthyciad ecwiti o £ 36,000 gan y Cyngor. Maen nhw'n cymryd morgais o £78,000 am y gweddill. Felly mae gan y cwpl gyfran o 70% yn yr eiddo (£ 84,000). Ar ôl tair blynedd maen nhw'n symud i ffwrdd o Ynys Môn ac yn gwerthu'r eiddo yn 2023 am £118,000. Mae'r cwpl yn derbyn 70% o'r pris gwerthu h.y. £ 82,600 a rhaid ad-dalu 30% i'r Cyngor, h.y. £ 35,400.

**Enghraifft b**

Mae cwpl yn defnyddio'r cynllun i brynu eiddo 2 ystafell wely yn 2020 am £ 120,000. Mae'r cwpl yn darparu blaendal o 5% o'r pris prynu (£ 6,000), ac mae 30% o'r pris prynu yn cael ei ariannu gan fenthyciad ecwiti o £ 36,000 gan y Cyngor. Maen nhw'n cymryd morgais o £ 78,000 am y gweddill. Felly mae gan y cwpl gyfran o 70% yn yr eiddo (£ 84,000). Maen nhw'n gwerthu'r eiddo yn 2025 am £ 132,000. Mae'r cwpl yn derbyn 70% o'r pris gwerthu, h.y. £ 92,400 a rhaid ad-dalu 30% i'r Cyngor, h.y. £ 39,600

Bydd aelwydydd yn gallu prynu ecwiti ychwanegol yn yr eiddo mewn ffyrdd 'staircasing' o 10% o werth y farchnad Enghraifft c)

**Enghraifft c**

Mae cwpl yn defnyddio'r cynllun i brynu eiddo 2 ystafell wely yn 2020 am £ 120,000. Mae'r cwpl yn darparu blaendal o 5% o'r pris prynu (£ 6,000), ac mae 30% o'r pris prynu yn cael ei ariannu gan fenthyciad ecwiti o £ 36,000 gan y Cyngor. Maen nhw'n cymryd morgais o £ 78,000 am y gweddill. Felly mae gan y cwpl gyfran o 70% yng ngwerth yr eiddo (£ 84,000).

Ar ôl tair blynedd, maent yn canfod y gallant fforddio cynyddu eu cyfran o'r eiddo 10% i 80%. Maent yn cael prisiad o'r eiddo gan Syrfëwr Siartredig cymwys sy'n nodi bod yr eiddo werth £125,000. Mae eu cyfran gyfredol o 70% yn seiliedig ar y prisiad newydd bellach yn werth £87,500. Cyfran o 80% yn seiliedig ar y prisiad newydd yw £100,000. Felly bydd y cwpl yn talu £12,500 i'r Cyngor er mwyn cynyddu eu cyfran ecwiti i 80%. Pan fyddant yn gwerthu'r eiddo yn 2025 am £ 132,000 maent yn derbyn 80% o'r enillion (£105,600) ac ad-delir 20% (£ 26,400) i'r Cyngor.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| V0.1 | Hydref 2021 | |
| V0.2 | Ionawr 2022 | Cwesitwn 17 |
| | | |



| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Polisi Rhannu Ecwiti |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Cynnig newydd i gynnig rhannu ecwiti mewn tai presennol ac eiddo newydd wedi ei adeiladu |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Cyfle i bobl brynu cartref fyddai tu allan i'w cyrraedd ar y farchnad agored |

| **Cam 1: Y Cefndir** | | |
|---|---|---|
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy’n cael ei asesu? | Gwasanaethau Tai- Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 5 - Pwy yw’r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 6 - Pwy arall sy’n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu<br><br>Swyddog Tai Gwag<br><br>Rheolwr Datblygu Tai<br><br>Rheolwr Polisi ac Iaith Gymraeg | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu’r effaith? | Strategaeth Tai Interim 2021-22 a Strategaeth Tai Draft 2022-27 | |
| 8 - Ydy’r cynnig yn berthnasol i sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy’n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | |
| | Meithrin perthynas dda | |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | |
| 9 - Ydy’r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | | |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas(gweler atodiad 1). | Pobl sydd hefo cysylltiad lleol hefo eu cymunedau ac sydd ddim yn gallu fforddio prynu eu cartref. Mae nod y cynnig o gynorthwyo yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol rhai unigolion drwy ganiatau iddynt bod a rhan mewn perchnogi eiddo. Gall hyn yn ei dro lleihau'r ansicrwydd all fod gysylltiedig a threfniadau byw ansefydlog, fel cyd-fyw a theulu/ffrindiau neu rentu. Hefyd yn cynorthwyo pobl i fyw yn agosach at rwydweithiau cefnogi/teuluol. |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw y cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Bydd unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu'r Gymraeg yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Bydd yn cynnig cyfle i bobl aros o fewn eu cymunedau a chyfrannu a defnyddio gwasanaethau lleol sydd ar gael yn Gymraeg. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i bobl fanteisio ar gyfleon addysg lleol, yn cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu naill ai'n Gymraeg neu ddwyieithog er mwyn caniatau siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn ddiofyn. |
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Credwn y bydd ac yn cyfrannu ar gyflawni gweledigaeth maes blaenoriaeth tri Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26, y Gymuned, sef; 'Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol.' |

Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
|---|
| **dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach . |

| Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2).<br><br>na |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | **yndi** |
| | Cymru gydnerth | **yndi** |
| | Cymru iachach | **yndi** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **yndi** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **yndi** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **yndi** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **Bydd tai newydd o safon uchel effeithlonrwydd ynni** |

| Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Cyhoeddwyd holiadur angen am dai a chasglwyd gwybodaeth o'n hymatebion i'r ymgynghoriad ar ein Strategaeth Tai |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| | |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Gwybodaeth o'r Strategaeth Tai a Phrosbectws Tai |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | |

**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | **Positif** | | |
| Anabledd | **Positif** | | |
| Rhyw | **Positif** | | |
| Newid Rhyw | **Positif** | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Positif** | | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Positif** | | |

| Y grwp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| Crefydd neu Gred | **Positif** | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Positif**<br>**Positif** | | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | **Positif** | | |
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | **Positif** | | |
| Hawliau Dynol | **Positif** | | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | | | |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os y daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grwp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| **Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | **Effaith isel** | | |

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

| **Cam 4 – Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3). | **Dim newid mawr** |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, | **Dim newid mawr** |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | **Dim newid mawr** |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma? | **Dim newid mawr** |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Adolygu ar ôl 1 blwyddyn |



**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

### Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

### Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

**Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonITor.**

**Atodiad 2 – Hawliau Dynol**

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Materion i'w hystyried o ran yr iaith Gymraeg**

Mae'r templed corfforaethol ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch effaith penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg (cwestiynau 11 i 14). Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;



**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg.** Cwblhewch asesiad effaith ac atodwch y templed i'ch asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr un cynnig.

Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | **Polisi Rhannu Ecwiti** |
| **Pwy sydd yn cynnal yr asesiad yma?** | **Gwasanaeth Tai- Strategol, Comisiynu a Pholisi** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | **Ionawr 2022** |

| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 1.1 A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Bydd, bydd bod deunydd sydd yn ymwneud gyda'r Polisi hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog |
| 1.2 A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd, bydd bod deunydd sydd yn ymwneud gyda'r Polisi hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog |
| 1.3 A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? | Bydd, bydd bod deunydd sydd yn ymwneud gyda'r Polisi hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

| **1 – Cydymffurfiaeth â’r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â’r polisi iaith?<br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â’r Gymraeg?<br>• Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a’i fesur? | |

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 2.1 A fydd y maes gwaith yma’n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o’r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd, yn unol â Pholisi’r Cyngor |
| 2.2 Oes perygl i’r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi’i gynllunio mewn i’r cynnig?<br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a’r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Nag oes. Bydd yn un lefel o ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei gynnig trwy gyfrwng y Saesneg a’r Gymraeg. Mae’r capasiti staffio wedi ei drefnu mewn modd sy’n sicrhau bod gwasanaeth cyfrwnng Cymraeg ar gael. |
| 2.3 A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>• A yw’n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg? | Na |

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | Na |
| 2.4 A fydd y gwasanaeth Gymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?<br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor ydyw |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| 3.1 A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae'r Polisi yn gyd fynd gyda'n Strategaeth Tai a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu aros o fewn eu cymuned ac ar yr Ynys drwy nifer o fentrau gwahanol.<br><br>Yn ôl y Cyfrifiad, gwelwyd gostyngiad o 27.1% yn y canran siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth rhwng 16-64 (sef oed gweithio), gostyngiad o 8% yn siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 oed; ond cynnydd o 16% yng nghanran siaradwyr Cymraeg dros 65 mlwydd oed. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar deuluoedd ifanc, annog siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i ffwrdd i ddychwelyd i'r ardal ac annog unigolion i ddysgu Cymraeg er mwyn o leiaf cynnal yr iaith. Mae darparu tai sydd ddigon fforddiadwy a sydd o'r math cywir i gyfarch yr angen yn yr ardal leol ac mewn Canolfan Gwasanaeth Lleol (sy'n leoliad cynaliadwy i fyw ynddo) yn ffordd bwysig o wneud hyn. |
| 3.2 A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg? | Nid yw'r Polisi hwn yn cyflwyno gwasanaeth newydd |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| • A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?<br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | Nid yw'r Polisi hwn yn cyflwyno gwasanaeth newydd |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 4.1 Polisiau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd |
| 4.2 Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis | Bydd, gan gynnig cyfleoedd i bobl gael mynediad i dai o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys. Gweler 3.1 uchod |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Medi 2016?<br><br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | |

| **5 – Yr effeithiau sydd wedi cael eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| 5.1 Pa effeithiau rydych chi wedi'u nodi (hy crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: | |
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Cyfle i bobl gael mynediad i dai a chefnogaeth ar yr Ynys drwy nifer o ymyraethau |
| Yr effeithiau negyddol: | Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Bydd unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan yr Wasanaethau Tai mewn perthynas a'r strategaeth yn cael ei ddarparu'n Gymraeg yn unol a safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. |
| Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i ategu'ch asesiad: | Data Cyfrifiad 2011 am nifer siaradwyr Cymraeg fesul oedran. |

| **6 - Ymgynghori** | |
|---|---|
| 6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg?<br><br>Mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
| 6.2 Gyda phwy rydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | |
| 6.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | |

| **7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| 7.1 Dylech grynhoi'ch cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>**Bydd angen cyfeirio at y crynodeb yma yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad).** | **Dim effaith negyddol wedi ei adnabod** |
| 7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith? | **Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y templed asesu effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad.** |

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

Cynllun Tai Newydd ar dir ger Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi

New Housing Scheme on land near Ysbyty Penrhos Stanley, Holyhead

**Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 12, 13 & 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972** / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 12,13 & 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

**12. Gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol** / Information relating to a particular individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn** / Information which is likely to reveal the identity of an individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth)** / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)
**Nid yw gwybodaeth sydd dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig dan y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru dan:-** / Information falling within paragraph 14 is not exempt information by virtue of that paragraph if it is required to be registered under:-
**Deddf Cwmnïau 1985** / the Companies Act 1985 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974** / the Friendly Societies Act 1974 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992** / the Friendly Societies Act 1992 **Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978** / the Industrial and Provident Societies Acts 1965 to 1978 **Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986** / the Building Societies Act 1986; **neu** / or **Deddf Elusennau 1993** / the Charities Act 1993
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| **Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mi fyddai'r cyhoedd a'r datblygwr yn gweld faint mae'r Cyngor yn fodlon talu am dai cyngor newydd cyn bod cytundeb pris wedi ei gytuno'n derfynol.** | **Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mai'n bosibl y byddai'n gallu i negydu contractau gyda contractwyr eraill yn y dyfodol yn anoddach.**<br><br>**Byddai cyhoeddi'r wybodaeth yn gosod cynsail o ran faint mae'r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.** |
| **This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, the public and other developers would see how much the Council is willing to pay for new Council houses before the price has been finally agreed.** | **This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, it is possible that the ability to negotiate contracts with other contractors would be more difficult in future.**<br><br>**Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work.** |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank